Department for Education

# Ymgynghoriad Adferiad Diogelu Trosiannol Cynllun Pensiwn Athrawaon

**Dyddiad lansio** **27 Mawrth 2023**

**Ymateb erbyn** **4 Mehefin 2023**

**Rhagymadrodd** ..... **3**

**Cefndir a chyd-destun** ..... **6**

**Achos McCloud** ..... **9**

- **Yr Adferiad** ..... 10
- **Y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022** ..... 12
- **Angen am reoliadau penodol i'r cynllun** ..... 13
- **Rheoliadau ôl-syllol TPS** ..... 15

**Rhan 1 – Aelodau Dewis Gohiriedig** ..... **17**

- **Ategiad Dewis Gohiriedig a Datganiadau Gwasanaeth Adferadwy** ..... 18
- **Dewisiadau gwasanaeth wedi'u hoptio allan** ..... 23
- **Ysgariad a Diddymiad Partneriaeth Sifil** ..... 23
- **Hyblygrwyddau'r Cynllun** ..... 26
- **Trosglwyddiadau** ..... 32
- **Ymddeoliad Salwch** ..... 37
- **Atebolrwyddau a Thaliad** ..... 41
- **Effeithiau eraill yr adferiad sydd ddim yn gofyn am reoliadau** ..... 44

**Rhan 2 – Dewis Uniongyrchol Aelodau** ..... **47**

- **Dewis Uniongyrchol a Datganiadau Gwasanaeth Adferadwy** ..... 48
- **Dewisiadau gwasanaeth wedi'u hoptio allan** ..... 52
- **Ysgariad a Diddymiad Partneriaeth Sifil** ..... 53
- **Hyblygrwyddau Cynllun** ..... 56
- **Trosglwyddiadau** ..... 60
- **Pensiynau Plant mewn Taliad** ..... 64
- **Ymddeoliad Salwch** ..... 65
- **Ymddeoliad Cynamserol** ..... 67
- **Dyledion a Thaliad** ..... 70
- **Effeithiau'r adferiad sydd ddim yn gofyn am reoliadau** ..... 72

**Materion eraill sy'n effeithio ar aelodau Dewis Gohiriedig a Dewis Uniongyrchol** ..... **76**

- **Penderfyniadau Amodol Posibl** ..... 76
- **Treth** ..... 76
- **Cyflogwyr** ..... 76

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb** ..... **77**

**Cwestiynau Ymgynghoriad** ..... **80**

**Camau Nesaf** ..... **81**

# Rhyagymadrodd

1. Mae'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS) yn darparu buddion pensiwn ac eraill i athrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae cynllun gwaddol cyflog terfynol â dwy adran, gydag oedrannau pensiwn arferol o 60 a 65 (gan ddibynnu ar ba bryd yr ymunodd yr aelod), a chynllun gyrfa ar gyfartaledd diwygiedig ag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladol neu 65 (pa un bynnag yw'r uchaf).

2. Caeodd y cynllun gwaddol i unrhyw gronni ychwanegol gan unrhyw aelodau ar 31 Mawrth 2022. Mae pob aelod gweithredol o'r TPS yn awr yn y cynllun diwygiedig a dyma'r cynllun y bydd pob aelod newydd yn ymuno ag ef.

3. Yn ogystal â phensiwn blynyddol yn daladwy o'r adeg y mae aelod yn cyrraedd ei oedran cynllun pensiwn, mae darpariaethau eraill megis pensiwn salwch, buddion marwolaeth gan gynnwys taliad grant marwolaeth mewn perthynas â'r rheini sy'n marw tra'u bod yn dal i addysgu a phensiynau goroeswyr parhaol heb ystyried pryd mae'r aelod yn marw. Mae hyblygrwyddau cynllun amrywiol sy'n caniatáu i aelodau gronni rhagor o bensiwn, trosi rhywfaint o hawl pensiwn i gyfandaliad. ymddeol yn gynnar ac ati.

4. Os yw unigolyn yn cael ei gyflogi gan gyflogwr sy'n cymryd rhan mewn rôl addysgu'n bennaf (a rolau tebyg i addysgu fel darlithio), ac mae rhwng oedrannau 16-75, mae'n debygol o fod yn gymwys i'w gofrestru i mewn i'r TPS.

5. Mae'r cynllun yn cwmpasu amrediad o sefydliadau yn y sector addysgol sy'n cynnwys academïau, ysgolion wedi'u cynnal, colegau addysg bellach a phrifysgolion penodol (prifysgolion 'ar ôl-1992'). Nid yw ysgolion annibynnol yn cymryd rhan yn awtomatig yn y TPS, ond maen nhw'n gymwys i wneud cais i ymuno.

6. Mae cyfraniadau aelodau a chyflogwyr yn cyllido'r TPS, â'r rheolau wedi'u hamlinellu mewn rheoliadau. Mae rheolau'r cynllun gwaddol wedi'u

hamlinellu yn y Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 (rheoliadau 2010) (SI 2010/990). Mae rheolau'r cynllun diwygiedig wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 (rheoliadau 2014) (SI 2014/512).

7. Mae'r Adran Addysg (yr Adran) yn ymgynghori ar offeryn statudol drafft, y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel y rheoliadau drafft, a fyddai'n cyflwyno newidiadau i reolau TPS CYmru a Lloegr.

## Ar gyfer pwy mae hyn?

8. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y TPS, sy'n darparu pensiwn i athrawon sy'n cymryd rhan  staff cymwys arall sy'n gweithio yn y sector addysg yng Nghymru a Lloegr.

9. Mae'r Adran wedi cyhoeddi rhestr o sefydliadau y byddai'n disgwyl ymgynghori â nhw ar newidiadau a chysylltir â'r rheini ar y rhestr. Mae'r rhestr yn cynnwys cynrychiolwyr, cyflogwyr TPS a chyrff eraill o'r sector.

## Dyddiad Cyhoeddi

10. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar xx Mawrth 2023.

## Ymholiadau

Os yw'ch ymholiad yn ymwneud â chynnwys polisi'r ymgynghoriad gallwch gysylltu â'r tîm trwy e-bostio tps.consultations@education.gov.uk.

11. Os yw'ch ymholiad yn ymwneud â gwefan e-ymgynghoriad DfE neu'r broses ymgynghori yn gyffredinol, gallwch gysylltu ag Adran Weinidogol a Chyfathrebiadau Cyhoeddus DfE  trwy e-bost :-

Consultations.Coordinator@education.gov.uk neu ar deleffon: 0370 000 2288 neu drwy'r DfE Contact us page.

## Copïau Ychwanegol

12. Mae copïau ychwanegol ar gael yn electronig a gellir eu lawrlwytho o [GOV.UK DfE consultations.]

## Cefndir a chyd-destun

13. Pan gafodd cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno yn 2015, caniataodd trefniadau diogelu trawsnewidiol i weithwyr hŷn barhau i adeiladu pensiynau yn y cynlluniau cyflog gwaddol terfynol tra chafodd gweithwyr iau eu symud i mewn i gynlluniau cyfartaledd gyrfa diwygiedig. Yn dilyn her gyfreithiol yn achos McCloud, canfu'r Llys Apêl fod y gwahaniaeth hwn mewn triniaeth yn y trefniadau trawsnewid yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail oedran. Mae'r Llywodraeth wedi deddfu'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (y Ddeddf) i weithredu newidiadau i ddatrys y gwahaniaethu ar sail oedran a gafodd ei adnabod.

14. Mae'r datrysiad yn cynnwys dwy ran neu ddau gam. Mae'r rhan gyntaf yn sicrhau triniaeth gydradd o'r holl aelodau o ddiwedd y cyfnod adfer a gafodd ei gyflawni trwy symud yr holl aelodau gweithredol sy'n weddill o'r cynllun gwaddol i mewn i'r cynllun diwygiedig ar 1 Ebrill 2022.

15. Mae ail ran yr adferiad yn ceisio dileu'r gwahaniaeth mewn triniaeth a gafodd ei achosi gan y darpariaethau diogelu trawsnewidiol trwy rolio yn ôl gwasanaeth cynllun diwygiedig yn ystod y cyfnod adfer i'r cynllun gwaddol a darparu dewis i aelodau cymwys dros y set o fuddion (y rheini a fyddai wedi cael eu cronni yn y cynllun diwygiedig) maen nhw'n dymuno eu derbyn am eu gwasanaeth yn ystod y cyfnod adfer. Y cyfnod adfer yw 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2022, sef y cyfnod y cafodd rhai aelodau eu trin yn wahanol yn unol â'u hoedran.

16. Aelodau sy'n gymwys ar gyfer yr adferiad yw'r rheini oedd yn aelodau o'r cynllun gwaddol ar neu gyn 31 March 2012 (pan gafodd y diwygiadau eu cyhoeddi) ac oedd yn parhau i fod mewn gwasanaeth pensiynadwy ar ryw adeg yn ystod y cyfnod adfer heb fod wedi cael toriad i'w hanghymwyso mewn gwasanaeth. Mae gwybodaeth fanwl ynglŷn â diwygiadau'r cynllun a dyfarniad McCloud yn cael eu darparu mewn adrannau dilynol o'r ddogfen hon.

17. Mae'r Adran yn ymgynghori ar reoliadau drafft sy'n gwneud newidiadau i reolau'r TPS sy'n angenrheidiol i weithredu ail gam y datrysiad. Mae'r rheoliadau yn cynnwys darpariaethau canlyniadol a gweithdrefnol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

## Cwestiynau ymgynghoriad

18. Mae'r Adran yn croesawu sylwadau a barnau ar y cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon a'r rheoliadau drafft. Cyfeiriwch at gwestiynau'r ymgynghoriad ar dudalen 77 os ydych chi'n dymuno ymateb.

## Ymateb ar-lein

19. Er mwyn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion defnyddiwch y system ar-lein. Ewch i www.education.gov.uk/consultations i gyflwyno'ch ymateb.

## Ffyrdd eraill o ymateb

20. Os am resymau eithriadol, nad ydych yn gallu defnyddio'r system ar-lein, er enghraifft oherwydd eich bod yn defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen word o'r ffurflen a'i hanfon trwy e-bost neu ei phostio.

**Trwy e-bost**

tps.consultations@education.gov.uk

**Trwy'r post**

TPS Pensions Policy Team
Department for Education

Bishopsgate House (3rd Floor)

Darlington

DL1 5QE

## Terfyn amser

21. Mae'r ymgynghoriad yn cau am 23:55 ar xx Mai 2023.

# Achos McCloud

## Diwygiadau cynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus a dyfarniad y Llys Apêl

22. Yn 2010, gwahoddodd Canghellor y Trysorlys ar y pryd yr Arglwydd Hutton o Furness i gadeirio'r Comisiwn Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (IPSPC).Cafodd yr IPSPC y dasg o ymgymryd ag adolygiad strwythurol sylfaenol o ddarpariaeth pensiynau gwasanaethau cyhoeddus.

23. Cyhoeddodd yr IPSPC ei adroddiad terfynol yn 2011, gan amlinellu argymhellion i ddiwygio pensiynau gwasanaethau cyhoeddus i gydbwyso buddiannau trethdalwyr, cyflogwyr ac aelodau yn well. Derbyniodd y Llywodraeth argymhellion yr IPSPC fel sail ar gyfer trafodaethau a gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus, undebau llafur a chyrff cynrychioladol eraill.

24. Yn Nhachwedd 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gorchymyn yn amlinellu fframwaith y Llywodraeth ar gyfer diwygio cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus. Ymgymerwyd â thrafodaethau ychwanegol â phob un o'r gweithluoedd i ddatblygu cynigion dylunio cynlluniau.

25. Yn Ebrill 2015, cafodd cynlluniau diwygiedig eu cyflwyno i'r prif weithluoedd – athrawon, y GIG, y lluoedd arfog, ymladdwyr tân, heddlu, barnwriaeth a gwasanaeth sifil – yn dilyn diwygiadau tebyg i weithwyr llywodraeth leol yn 2014. Cafodd y diwygiadau eu gweithredu gan reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

26. Fel rhan o'r diwygiadau, arhosodd aelodau o fewn 10 mlynedd o oedran eu cynllun pensiwn arferol (aelodau gwarchodedig) yn gyfan gwbl yn y cynlluniau pensiwn gwaddol. Arhosodd aelodau o fewn 10-13.5 mlynedd o'u hoedran cynllun pensiwn arferol (aelodau gwarchodaeth wedi'i lleihau) yn rhannol yn y cynlluniau pensiwn gwaddol a symudon nhw i'r cynlluniau

diwygiedig ar ddyddiad penodol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Symudodd aelodau mwy na 13.5 o flynyddoedd o gyrraedd oedran pensiwn arferol eu cynllun (aelodau heb warchodaeth) i'r cynllun diwygiedig ar eu dyddiad cyntaf o wasanaeth o 1 Ebrill 2015. Nid oedd y warchodaeth drawsnewidiol a ddarperir i aelodau gwarchodedig a gwarchodaeth lai yn argymhelliad gan yr IPSPC ond cafodd ei gytuno yn dilyn trafodaethau â chynrhychiolwyr aelodau.

27. Yn Rhagfyr 2018 canfu'r Llys Apêl yn yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn erbyn McCloud, yr ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref yn erbyn Sargeant [2018] EWCA Civ 2844 (cyfeirir ato fel dyfarniad McCloud) y rhagfarnodd gwarchodaeth drawsnewidiol yn anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau o gynlluniau pensiwn y farnwriaeth ac ymladdwyr tân, a rhoddodd fod hefyd i ragfarnu rhyw a hil anuniongyrchol. Ar 27 Mehefin 2019 gwrthododd y Goruchaf Lys ganiatâd i'r llywodraeth apelio yn erbyn dyfarniad y Llys Apêl.

28. Ar 15 Gorffennaf 2019 gwnaeth y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn amlinellu bod y Llywodraeth wedi ystyried bod gan ddyfarniad y Llys Apêl oblygiadau i'r holl gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a chynlluniodd i ddod ymlaen â chynigion i ddatrys y gwahaniaethu yn briodol.

## Yr Adferiad

29. Ar 16 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad yn cynnwys dau opsiwn arfaethedig i ddileu'r gwahaniaethu a ddioddefwyd gan aelodau nad oedd yn gymwys am warchodaeth drawsnewidiol oherwydd eu hoedran yn ôl-syllol.Cynigiodd yr ymgynghoriad hefyd y byddai'r cynlluniau pensiwn gwaddol gwasanaethau cyhoeddus yn cau i bob aelod oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2022. Dyma oedd y 'darpar adferiad' sydd ddim yn destun yr ymgynghoriad hwn.

30. Cynigiodd y Llywodraeth y dylai aelodau gael dewis o ba gynllun maen nhw'n dymuno ei dderbyn yn ystod y cyfnod o'r adeg y cafodd y cynlluniau diwygiedig eu cyflwyno i'r dyddiad y caeodd y cynlluniau gwaddol. Byddai hyn yn gymwys yn gydradd i aelodau a gafodd fudd o warchodaeth drawsnewidiol a'r rheini na chafodd. Ymhlith materion eraill, ceisiodd yr ymgynghoriad safbwyntiau ar a ddylai'r dewis gael ei wneud ar unwaith (cyn gynteg ag y cafodd y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol eu gwneud) neu eu gohirio hyd yr adeg mae buddion pensiwn aelod yn dod yn daladwy.

31. Yn Chwefror 2021 cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb, gan gadarnhau y byddai'r cynlluniau gwaddol yn cau ar 31 Mawrth 2022 a byddai aelodau oedd yn cael eu heffeithio yn cael dewis o ba fuddion pensiwn (gwaddol neu ddiwygiedig) maen nhw'n dymuno eu derbyn pan fydd y buddion hynny'n cael eu talu. Bydd y dewis hwnnw yn gymwys i'w holl wasanaeth adferadwy ac ni chaniateir i aelodau gymryd cyfuniad o gynllun gwaddol a chynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu bod y rheini â gwarchodaeth lai yn cael dewis rhwng cynllun gwaddol a diwygiedig ac nad ydynt yn gallu cadw buddion 'cymysg', fel arall byddai gwahaniaeth yn parhau i fod mewn triniaeth oherwydd oedran.

32. Yn Araith y Frenhines ar 11 Mai 2021 cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i weithredu newidiadau ôl-syllol i ddatrys y gwahaniaethu a gododd ac i sicrhau triniaeth gyfartal i bob aelod o fewn pob un o'r prif gynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus trwy symud yr holl aelodau i mewn i'r cynlluniau diwygiedig ar 1 Ebrill 2022.

33. Cafodd y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol ei chyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ar 19 Gorffennaf gan roi fframwaith ar waith i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu a gafodd ei adnabod gan y Llys Apêl, yn ôl-syllol yn ogystal ag i'r dyfodol, yn ogystal ag effeithiau canlyniadol yr adferiad hwnnw. Cafodd Cydsyniad Brenhinol ei dderbyn ar 10 Mawrth 2022.

## Y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022

34. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i ddatrys y gwahaniaethu sy'n codi o'r warchodaeth drawsnewidiol a gyflwynwyd i mewn i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn 2015.

35. Mae elfennau penodol o'r datrysiad yn cael eu cyflawni yn unig trwy ddarpariaethau yn y Ddeddf gan gynnwys pwy sy'n gymwys ar gyfer y datrysiad ac i wasanaeth cynllun diwygiedig gael ei 'rolio yn ôl' i'r cynllun gwaddol. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i'r cynlluniau wneud darpariaethau mewn rheoliadau i ddarparu agweddau eraill o'r adferiad.

## Cymhwysedd

36. I fod yn gymwys ar gyfer yr adferiad mae'n rhaid fod gan aelod 'wasanaeth adferadwy.' Mae Adran 1 y Ddeddf yn amlinellu er mwyn i wasanaeth fod yn 'wasanaeth adferadwy': -

    a) mae'n ymwneud â chyfnod pan gododd y gwahaniaethu (1 Ebrill 2015 -31 Mawrth 2022);
    b) roedd yr aelod yn gymwys ar gyfer gwarchodaeth drawsnewidiol neu byddai wedi bod yn gymwys ar gyfer gwarchodaeth drawsnewidiol oni bai am y gofyniad gwahaniaethol yn y cynlluniau;
    c) roedd yr aelod, ar neu gyn 31 Mawrth 2012, yn aelod o gynllun gwaddol;
    d) nid oes gan yr aelod doriad mewn gwasanaeth sy'n anghymhwyso (toriadau o fwy na 5 mlynedd).

37. Mae aelodau â gwasanaeth sy'n ateb y meini prawf yn gymwys ar gyfer yr adferiad. Mae hyn yn cynnwys aelodau gweithredol, gohiriedig, wedi ymddeol ac wedi marw heb ystyried a gawsant fudd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o warchodaeth drawsnewidiol.

## Rolio yn ôl

38. O 1 Hydref 2023 bydd yr aelodau heb warchodaeth ac â gwarchodaeth wedi'i lleihau a gronnodd fuddion rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 mewn cynllun diwygiedig yn cael y cyfnod hwnnw o wasanaeth wedi'i ddychwelyd i'r cynllun gwaddol perthnasol. Bydd hyn yn arwain at bob aelod a effeithir yn cael eu gwasanaeth adferadwy yn y cynllun gwaddol.

39. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 1 o'r ddogfen hon, mae gan y cynllun gwaddol TPS ddwy adran. Bydd gwasanaeth yr aelod yn cael ei ddychwelyd i adran y cynllun gwaddol y cafodd yr aelod wasanaeth yn fwyaf diweddar – hynny yw, yr adran roedd yr aelod ynddi yn union cyn symud i'w gynllun diwygiedig o 1 Ebrill 2015.

40. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer 'Gwasanaeth Gormodol Athrawon' i gael ei gynnwys yn y diffiniad o 'wasanaeth adferadwy'. Mae esboniad o Wasanaeth Gormodol Athrawon yn cael ei gynnwys ym mharagraffau 179-187 a 300-309.

## Angen am reoliadau penodol i'r cynllun

41. Mae'r adran flaenorol wedi disgrifio sut o dan ddarpariaethau'r Ddeddf, mae pob gwasanaeth a gronnwyd o 1 Ebrill 2022 yn y TPS yn y cynllun diwygiedig.

42. Ar 1 Hydref 2023, bydd gan aelodau sy'n gymwys ar gyfer yr adferiad gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 'wedi'i rolio yn ôl' i'r cynllun gwaddol.

43. Pan fydd yr aelodau hynny yn ymddeol, rhoddir dewis iddynt a yw eu gwasanaeth cyfnod adferiad i gael ei drin fel cynllun gwaddol neu ddiwygiedig. Mae hyn oherwydd na fydd un cynllun yn well bob amser na'r cynllun arall i aelodau – bydd pa un sy'n fwyaf buddiol yn dibynnu ar amgylchiadau pob unigolyn hyd at ymdddeoliad. Am y rheswm hwn, bydd y rhan fwyaf o aelodau yn gwneud eu dewis ar yr adeg yn union cyn

ymddeol fel bod eu penderfyniad yn seiliedig ar bob gwybodaeth berthnasol.

44. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu y bydd y rheini sydd wedi cymryd buddion ymddeoliad eisoes cyn 1 Hydref 2023 yn derbyn eu dewis cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwn.

45. Mae angen rheoliadau TPS i roi gofynion y Ddeddf mewn grym ac i fynd i'r afael â materion canlyniadol eraill sy'n codi o rolio yn ôl a dewis yr aelod o fuddion. Mae rheoliadau yn diwygio rheolau'r cynllun i weithredu'r adferiad a darparu awdurdod i'r gweinyddwr gymhwyso'r newidiadau.

46. Darparodd un set o reoliadau, y Rheoliadau Cynllun Pensiynau Athrawon (Gwelliant) 2022, ar gyfer cau'r cynllun gwaddol ar 31 Mawrth 2022 a symudodd bob aelod gweithredol oedd ar ôl i'r cynllun diwygiedig ar 1 Ebrill 2022 (cam un). Dilynodd hyn ymgynghoriad cynharach gan yr Adran a gafodd ei gynnal o 30 Tachwedd 2021 i 21 Ionawr 2022 a ddeliodd â darpar gam yr adferiad. Cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 17 Mawrth 2022.

47. Mae angen ail set o reoliadau ar gyfer cam dau, i ganiatáu i'r TPS:

- gynnig dewis i aelodau cymwys dros y set o fuddion maen nhw'n dymuno eu derbyn mewn perthynas â gwasanaeth adferadwy yn ystod y cyfnod adfer o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.

- delio ag effeithiau canlyniadol rolio yn ôl a dewisiadau aelodau ar faterion fel hyblygrwyddau cynllun, trosglwyddiadau a gorchmynion a wnaed yn ystod achosion ysgariad/diddymiad a gododd yn ystod y cyfnod adfer.

- Cywiro unrhyw ordaliad neu dandaliad o fuddion pensiwn neu gyfraniadau aelod a gododd o ganlyniad i rolio yn ôl neu ddewis aelod o fuddion ymddeoliad.

- Mynd i’r afael ag unrhyw achosion arbennig sy’n codi, er enghraifft ailasesiadau ymddeoliad salwch neu’r warchodaeth o bensiynau plant mewn taliad.

- Hwyluso’r taliad o iawndal priodol i fynd i’r afael â cholledion ariannol neu golledion treth sy’n codi o’r gwahaniaethu neu weithrediad yr adferiad.

48. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â’r ail set o reoliadau.

## Rheoliadau ôl-syllol TPS

49. Mae’r adran hon yn esbonio sut mae’r Adran yn cynnig darparu’r newidiadau canlyniadol a gweithdrefnol gofynnol o ganlyniad i’r Ddeddf trwy reoliadau cynllun.

50. Mae’r adferiad ôl-syllol yn cael ei ddarparu trwy gyflwyno rheoliadau TPS newydd yn hytrach na gwneud rheoliadau sy’n diwygio rheoliadau 2010 a 2014 sy’n bodoli. Mae’r rheoliadau ôl-syllol yn gymwys yn unig i’r aelodau hynny sydd â gwasanaeth adferadwy, hynny yw, aelodau sydd o fewn cwmpas yr adferiad (gweler paragraffau 36-37).

51. Mae’r esboniad o’r rheoliadau draft a sut y byddent yn darparu eu dewis o fuddion i aelodau cymwys ar gyfer y cyfnod adfer a newidiadau canlyniadol eraill yn ymwneud â rolio yn ôl a/neu ddewis aelod o fuddion ymddeoliad wedi’i rannu’n ddwy ran.

52. Mae Rhan1 yn mynd i’r afael â sut y byddai’r Adran yn cynnig newidiadau rheoleiddiol yn effeithio ar aelodau gweithredol a gohiriedig o’r cynllun. Aelod gweithredol yw rhywun sydd â buddion yn y cynllun ac mae’n talu cyfraniadau ar hyn o bryd. Aelod gohiriedig yw rhywun sydd wedi cadw buddion yn y cynllun ond nid yw’n talu cyfraniadau ar hyn o bryd. Cyfeirir at y rhain fel aelodau ‘Dewis Gohiriedig’ gan y byddant yn gwneud penderfyniad gohiriedig am eu buddion ymddeoliad adferadwy ar adeg ymddeol. Mae paragraffau 54-187 yn esbonio’r ymagwedd a gynigir i aelodau Dewis Gohiriedig.

53. Mae Rhan 2 yn mynd i'r afael â sut mae'r Adran yn cynnig y byddai newidiadau rheoleiddiol yn effeithio ar aelodau o'r cynllun sydd wedi ymddeol neu farw yn ystod y cyfnod adfer ac felly mae'r aelod (neu fuddiolwr) eisoes yn derbyn buddion ymddeoliad o'r TPS cyn 1 Hydref 2023. Cyfeirir at yr aelodau hyn fel aelodau 'Dewis Uniongyrchol' gan y bydd yr amgylchiadau sy'n pennu gwerth pob set o fuddion wedi digwydd eisoes. Byddant yn gwneud dewis am eu buddion ymddeoliad adferadwy cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Hydref 2023. Mae paragraffau 188-309 yn esbonio'r ymagwedd a gynigir i aelodau Dewis Uniongyrchol.

# Rhan 1 – Aelodau Dewis Gohiriedig

## Trosolwg

54. Aelodau Dewis Gohiriedig yw'r rheini sy'n weithredol neu'n ohiriedig ar 1 Hydref 2023 ac sydd heb gymryd unrhyw fuddion ymddeoliad o'r TPS.

55. Darperir datganiadau i'r aelodau hyn fydd yn cynnwys manylion o fuddion cyfnod adfer yn ôl a ydynt yn cael eu cymryd fel cynllun gwaddol neu gynllun diwygiedig (cyfatebol). Mae'r datganiadau yn cael eu darparu at ddibenion gwybodaeth yn unig, fodd bynnag pan fydd yr aelodau hyn yn barod i ymddeol byddant yn derbyn datganiad llawn fydd yn cynnwys cyfrifiadau buddion terfynol o dan y cynlluniau gwaddol a diwygiedig.

56. Bydd angen i rai aelodau Dewis Gohiriedig â gwasanaeth yn y cynllun diwygiedig yn ystod y cyfnod adfer wneud penderfyniadau yn dilyn rolio gwasnaeth adferadwy yn ôl ar 1 Hydref 2023. Mae hyn yn cynnwys aelodau sydd wedi gweithio goramser neu fod ganddynt Wasanaeth Gormodol Athrawon (gweler paragraffau 179-187) gan arwain at gyfraniadau pensiwn gordaledig neu lle mae aelodau wedi cymryd hyblygrwyddau cynllun allan. Mae rheoliadau drafft yn amlinellu sut mae'r Adran yn cynnig mynd i'r afael â'r fath faterion.

57. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cwmpasu meysydd fel ailasesiadau Ymddeoliad Salwch a sut mae'r TPS yn cynnig rheoli unrhyw ordaliad o gyfraniadau pensiwn.

# Datganiadau Ategiad Dewis Gohiriedig a Gwasanaeth Adferadwy

58. O ganlyniad i adran 2(1) y Ddeddf, bernir y bydd pob aelod a effeithir yn y cynllun gwaddol am y cyfnod adfer. Gan y gall rhai aelodau fod wedi bod yn well eu byd yn y cynllun diwygiedig, rhoddir y cyfle iddynt ddewis derbyn beth sy'n cyfateb i'r hyn y byddent wedi'i gronni yn y cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod adfer.

59. I aelodau gweithredol a gohiriedig, bydd hyn yn benderfyniad Dewis Gohiriedig (DC) ac mae'n sicrhau bod y penderfyniad ar ba fuddion cynllun mae'r aelod yn eu dewis yn seiliedig ar bob gwybodaeth berthnasol. Bydd yr wybodaeth honno yn cael ei darparu mewn datganiad Gwasanaeth Adferadwy fydd yn cael ei ddosbarthu i'r aelod (neu wneuthurwr penderfyniad).

60. Bydd penderfyniad DC yn cael ei roi i bob aelod gweithredol a gohiriedig cymwys pan geisiant am fuddion ymddeoliad. Lle mae aelod gweithredol neu ohiriedig yn marw ar ôl 1 Hydref 2023, bydd y dewis hwn yn cael ei gyflwyno i'r gwneuthurwr penderfyniad cymwys (paragraffau 71-74).

## Datganiadau Gwasanaeth Adferadwy

61. Mae angen darpariaeth ar gyfer y cynllun i ddarparu Datganiad Gwasanaeth Adferadwy (RSS) i aelodau cymwys yn unol ag adran29 o'r Ddeddf a Chyfarwyddiadau Trysorlys EF.

62. Nid yw RSSau yn cael eu darparu ar hyn o bryd i aelodau o'r TPS ac maen nhw'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r adferiad i ddarparu manylion opsiynau aelod cymwys.

63. Bydd y RSS yn dangos buddion aelod a gronnwyd yn ystod y cyfnod adfer wedi'u cyfrifo o dan y cynllun gwaddol yn ogystal â'r cynllun diwygiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod gan aelodau cymwys (neu wneuthurwyr penderfyniadau yn achos aelodau a fu farw) wybodaeth ddigonol i wneud

penderfyniad gwybodus. Bydd y RSS mewn fformat tebyg i’r datganiad buddion blynyddol a bydd yn cynnwys manylion perthnasol yn ymwneud â phob aelod. Bydd y RSS yn darparu gwybodaeth am bryd a sut y bydd aelod yn gwneud ei benderfyniad DC.

64. Mae’r Ddeddf yn darparu bod rhaid i RSS gael ei ddarparu i bob aelod cymwys o fewn 18 mis o 1 Hydref 2023 (neu’r fath ddiwrnod diweddarach mae rheolwr y cynllun yn ei ystyried yn rhesymol).

65. Darperir RSS yn flynyddol wedyn i aelodau gweithredol y cynllun a darperir RSS i aelodau gohiriedig o fewn 3 mis o gyflwyno cais ysgrifenedig. Bydd y RSSau hyn yn cael eu cyfuno â Datganiad Buddion Blynyddol yr aelod.

66. DarperirRSS i aelodau gweithredol a gohiriedig hefyd pan fyddant yn ymgeisio am fuddion ymddeoliad ac i wneuthurwr penderfyniad cymwys pan hysbysir y cynllun am farwolaeth aelod cymwys.

*Mae rheoliad drafft 3 yn gymwys.*

## Gwneud penderfyniad DCU ar ymddeoliad

67. Ar ôl ymgeisio am ymddeoliad a derbyn ei RSS ymddeoliad, mae’n rhaid i’r aelod wneud penderfyniad DC cyn diwedd y cyfnod dewis – mae hyn o fewn 12 mis o’r RSS yn cael ei ddosbarthu. Mae cyfnod o 12 mis yn caniatáu digon o amser i aelod ystyried ei opsiynau a cheisio cyngor ariannol annibynnol pe dymunai wneud hynny.

68. Mae Adran10 y Ddeddf yn darparu y gall aelod wneud dewis am fuddion cynllun diwygiedig cyfatebol cyn diwedd y cyfnod dewis. Mae’r Ddeddf yn darparu bod dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig yn dod i rym ar unwaith cyn i’r aelod ddod yn aelod bensiynwr o’r cynllun. Lle mae aelod yn penderfynu peidio â gwneud dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig (hynny yw, mae’n dewis buddion cynllun gwaddol) mae geiriad y Ddeddf yn golygu nad yw’r ‘penderfyniad’ hwn yn dod i rym hyd ddiwedd y cyfnod dewis. Mae’r Adran felly wedi cynnwys darpariaeth yn y rheoliadau drafft ar gyfer ‘Penderfyniad Dewis Gohiriedig.’ Y penderfyniad hwnnw fydd fod

aelod naill ai’n (i) dewis buddion cynllun diwygiedig neu (ii) nad yw’n dewis buddion cynllun diwygiedig a chyn gynted â bod hynny’n cael ei gyfathrebu i’r cynllun bydd y dewis yn dod i rym. Mae hyn yn golygu lle mae aelod yn dewis buddion cynllun gwaddol mae’r penderfyniad hwnnw’n gallu cael ei weithredu heb orfod aros hyd bod y cyfnod dewis wedi dod i ben.

69. Gall aelod wedyn ddiddymu ei benderfyniad a gwneud dewis gwahanol ar unrhyw adeg cyn i fuddion ymddeoliad ddod yn daladwy.

70. Lle mae gweinyddwr y cynllun yn derbyn hysbysiad o farwolaeth aelod DC hyd at ddwy wythnos cyn taliad cyntaf y buddion ymddeoliad i gael eu gwneud i’r aelod (neu’n ddiweddarach os bernir yn briodol yn yr amgylchiadau),mae unrhyw benderfyniad DC a gyfathrebwyd gan yr aelod yn cael ei ddiddymu ac mae’n cael ei drin fel na chafodd ei wneud erioed. Yn y sefyllfa hon byddai RSS yn cael ei ddosbarthu i’r gwneuthurwr penderfyniad cymwys ac mae’r broses benderfynu a chyfnod o amser yn cael eu hailosod.

*Mae rheoliadau drafft 11 a 12 yn gymwys.*

## Penderfyniad DC i’w wneud gan wneuthurwr penderfyniad cymwys

71. Lle mae aelod gweithredol neu ohiriedig yn marw ar ôl 1 Hydref 2023 ond cyn gwneud ei benderfyniad DC (neu fod buddion eraill wedi dod yn daladwy os oedd wedi gwneud penderfyniad), bydd RSS yn cael ei ddosbarthu i wneuthurwr penderfyniad cymwys. Bydd ganddo wedyn 12 mis i gadarnhau’r penderfyniad.

72. Bydd penderfyniad DC a gyfathrebir gan y gwneuthurwr penderfyniad cymwys yn dod i rym ar unwaith ac nid yw’n gallu cael ei ddiddymu.

73. Mae’r rheoliadau draft hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y taliad o fuddion marwolaeth a chyfandaliadau pan fydd aelod DC yn marw ar ôl 1 Hydref 2023 ond cyn i’w benderfyniad gael ei gyfathrebu i’r cynllun scheme.

74. Bydd y buddion hyn yn cael eu cyfrifo o dan reolau'r cynllun gwaddol a'r cynllun diwygiedig a byddai'r isaf o'r symiau hynny'n cael eu talu (er mwyn atal creu gordaliad posibl) yn disgwyl penderfyniad gan y gwneuthurwr penderfyniad. Byddai hyn yn ddarostyngedig i unrhyw addasiad perthnasol.

*Mae rheoliad drafft 13 yn gymwys.*

## Dewis a Bennwyd

75. Os nad yw aelod DC yn cyfathreu ei benderfyniad cyn diwedd y cyfnod dewis, ni fydd buddion ymddeoliad yn dod yn daladwy.

76. Mae'r broses ymgeisio am ymddeoliad yn cael ei hysgogi gan yr aelod ac mae'n rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol a geisir gan reolwr y cynllun fel rhan o'r broses ymgeisio. Bydd penderfyniad yr aelod yn dod yn ddarn ychwanegol o wybodaeth sy'n ofynnol i gwblhau'r cais cyn y gall buddion gael eu rhoi i'w talu.

77. Lle mae hysbysiad o farwolaeth aelod DC yn cael ei dderbyn, bydd y dewis yn gyfrifoldeb y gwneuthurwr penderfyniad cymwys. Lle nad yw'r gwneuthurwr penderfyniad cymwys yn cyfathrebu penderfyniad cyn diwedd y cyfnod dewis, mae'r rheoliadau drafft yn caniatáu i'r cynllun bennu bod dewis adran10 ar gyfer buddion cynllun diwygiedig wedi cael ei wneud lle byddai'r fath ddewis yn arwain at y gwerth ariannol uwch, fel y cyfrifir gan y cynllun.

78. Mae'r Adran wedi cynnwys y ddarpariaeth hon oherwydd yn absenoldeb penderfyniad DC neu ddewis a bennwyd, nid yw buddiolwyr sydd ddim yn wneuthurwyr penderfyniad yn gallu derbyn y buddion y gallent fod â hawl iddynt.

79. Lle mae buddion cynllun diwygiedig yn cynhyrchu'r gwerth ariannol uwch, bydd y cynllun yn pennu bod dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig wedi cael ei wneud ar gyfer y cyfnod adfer. Fel arall, lle mae buddion cynllun gwaddol yn cynhyrchu'r gwerth ariannol uwch, ni fydd dewis a

bennir a bydd buddion cynllun gwaddol yn gymwys i wasanaeth adferadwy'r aelodau.

80. Er mwyn pennu pa set o fuddion fyddai'n cynhyrchu'r gwerth ariannol uchaf, byddai gweinyddwr y cynllun yn defnyddio'r gwerth Digwyddiad Crisialu Buddion i asesu'r ffigur Lwfans Oes (cyfeirir ato hefyd fel 'Cronfa'r Cynllun'). Dyma gyfrifiad sy'n cael ei gwblhau mewn prosesau busnes fel arfer i bob aelod at ddibenion treth pensiwn. Gellir canfod manylion o sut mae'r gwerth hwn yn cael ei gyfrifo yn yr adran Lwfans Blynyddol a Lwfans Oes gwefan y TPS.

*Mae rheoliad drafft 14 yn gymwys.*

## Gwneuthurwr Penderfyniad Cymwys i Aelodau Sydd Wedi Marw

81. Mae'r rheoliadau drafft yn cynnwys fframwaith i adnabod y categorïau gwahanol o wneuthurwr penderfyniad cymwys ac yn amlinellu'r amodau i'w hateb ar gyfer pob math. Yn y rhan fwyaf o achosion y gwneuthurwr penderfyniad hwnnw fyddai'r oedolyn sy'n goroesi (gŵr/gwraig yr aelod, partner sifil neu bartner cyd-fyw cymwys). Mae rhai amgylchiadau lle gall fod buddiolwyr lluosog, ac felly mae'r drefn yn darparu llwybr eglur i adnabod pwy fyddai'r gwneuthurwr penderfyniad cymwys. Lle nad oes modd cytuno nac adnabod gwneuthurwr penderfyniad, rheolwr y cynllun fyddai'r gwneuthurwr penderfyniad.

*Mae atodlen 1 i'r rheoliadau drafft yn amlinellu sut mae'r gwneuthurwr penderfyniad yn cael ei adnabod.*

## Dewisiadau gwasanaeth wedi'u optio allan

82. Mae darpariaeth yn cael ei wneud i aelodau a optiodd allan o'r TPS o ganlyniad i'r gwahaniaeth a gafodd ei adnabod i gael y gwasanaeth hwnnw yn ystod y cyfnod adfer wedi'i ailosod.

83. Mae'n rhaid i'r aelod gwblhau cais o fewn 12 mis o adran 2(1) yn dod i rym ar 1 Hydref 2023. Mae'n rhaid i'r penderfyniad i optio allan fod wedi cael ei gyfathrebu i'r cynllun ar neu ar ôl 10 Mawrth 2012. Dyma'r dyddiad y cafodd y diwygiadau i'r cynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus eu cyhoeddi a allai fod wedi cymell rhai aelodau i optio allan o'r cynllun. Er y gall penderfyniad i optio allan o'r cynllun ragddyddio 1 Ebrill 2015 (mewn disgwyliad o'r newidiadau) dim ond gwasanaeth yn ystod y cyfnod adfer sy'n gallu cael ei ailosod o dan y darpariaethau hyn. Bydd angen i'r aelod hefyd ddarparu tysytiolaeth sy'n dangos iddo optio allan o'r cynllun oherwydd y gwahaniaethu.

84. Bydd rheolwr y cynllun yn ystyried y cais a lle bydd yr hawliad yn cael ei dderbyn bydd RSS yn cael ei ddosbarthu i'r aelod. Byddai ganddo wedyn 12 mis i gadarnhau ei ddewis o gael ailosod y gwasanaeth yr optiwyd allan ohono. Bydd y RSS yn manylu ar y cyfraniadau sy'n ddyledus gan yr aelod am y gwasanaeth yr optiwyd allan ohono a'r opsiynau ar gael i dalu'r cyfraniadau hynny. Lle mae'r aelod yn cadarnhau ei fod yn dymuno gwneud dewis i gael ailosod ei wasanaeth yr optiwyd allan ohono bydd wedyn yn cael ei drin yn yr un ffordd ag aelodau cymwys.

85. Os yw cais yr aelod yn cael ei wrthod gan weinyddwr y cynllun, gallai gyflwyno apêl trwy'r broses gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol.

*Mae rheoliad drafft 5 yn gymwys.*

## Ysgariad a Diddymiad Partneriaeth Sifil

86. Gall aelodau o'r TPS fod yn destun Gorchymyn Rhannu Pensiwn (PSO) o ganlyniad i achos ysgariad neu ddiddymiad. Cyn i PSO allu cael ei wneud,

mae'r llys yn gofyn bod yr aelod yn ceisio Gwerth Trosglwyddo Cyfatebol i Arian amcangyfrifedig (CETV) gan y cynllun. Y CETV yw gwerth y buddion cronedig o fewn pob cynllun, y mae'r llys yn ei ddefnyddio wrth gyfrifo cyfanswm gwerth yr asedau. Mae'r CETV yn cael ei gyfrifo gan y cynllun yn defnyddio cyfarwyddyd a ffactorau a ddarperir gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD). Mae rhagor o fanylion ar PSOau yn gallu cael eu canfod yn Nhaflen Ffeithiau Ysgariad  y TPS.

87. Lle mae aelod o'r cynllun yn destun PSO mewn perthynas â'i wasanaeth adferadwy, bydd angen i'r PSO hwnnw ystyried unrhyw effaith o'r adferiad.

88. Bydd hyn yn effeithio ar yr Aelod Credyd Pensiwn (cyn-ŵr/wraig neu bartner sifil aelod o'r cynllun – y PCM) a'r Aelod Debyd Pensiwn (yr aelod o'r cynllun sy'n destun achos ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil – y PDM).

## PSO a gyfrifir cyn 1 Hydref 2023

### Aelod Credyd Pensiwn

89. Bydd angen i unrhyw PSO sy'n cynnwys gwasanaeth adferadwy sydd wedi cael ei gyfrifo cyn 1 Hydref 2023 gael ei ailgyfrifo. Mae hyn oherwydd y byddai gwerth y pensiwn ar adeg yr ysgariad/diddymiad wedi bod yn wahanol pe byddai'r PDM wedi bod yn aelod bob amser o'r cynllun amgen ar gyfer y cyfnod adfer. Mae hyn yn golygu er bod y ganran a ddyfynnir yn y PSO yn aros yr un peth, gall y swm gwirioneddol a gredydir i'r aelod credyd pensiwn fod wedi bod yn wahanol. Lle mae'r PDM yn aelod gwarchodedig neu heb warchodaeth, bydd y credyd pensiwn yn cael ei ailgyfrifo yn y cynllun amgen. Os yw'r gwerth amgen hwnnw'n uwch, byddai credyd ychwanegol yn cael ei ddyfarnu i'r PCM.  Lle mae gwerth y cynllun amgen yn is, ni fyddai newid i werth y credyd pensiwn presennol (i sicrhau nad yw'r PCM yn cael ei roi o dan anfantais). Ac eithrio yn achos y rheini â gwasanaeth cymysg (aelodau gwarchodaeth wedi'i lleihau a

gafodd wasanaeth yn y cynlluniau gwaddol a diwygiedig yn ystod y cyfnod adfer), bydd unrhyw gredyd ychwanegol yn cael ei dalu i'r un cynllun mae'r credyd pensiwn presennol yn preswylio ynddo.

90. Lle roedd y PDM yn aelod â gwarchodaeth wedi'i lleihau ac felly roedd ganddo wasanaeth cymysg yn ystod y cyfnod adfer, bydd y gwerthoedd yn cael eu hailgyfrifo mewn perthynas â'r gwasanaeth adferadwy yn bod yn gyfan gwbl yn y cynllun gwaddol ac yn gyfan gwbl yn y cynllun diwygiedig. Mae hyn oherwydd nad yw'r Ddeddf yn caniatáu i wasanaeth adferadwy fod yn yn y cynlluniau gwaddol a diwygiedig.

91. Gall un neu'r ddau werth gynhyrchu swm uwch a fyddai'n cael ei ddyfarnu i'r PCM fel credyd. I'r gwrthwyneb, gallai un neu'r ddau o'r gwerthoedd hyn gynhyrchu swm is a allai leihau'r credyd pensiwn.

*Mae rheoliadau drafft 18, 19 a 20 yn gymwys.*

92. O fewn 12 mis o adran 2(1) yn dod i rym, mae'n rhaid i reolwr y cynllun ddarparu datganiad i PCMau yn amlinellu unrhyw swm credyd amgen ac unrhyw addasiad credyd.

93. Os oes gan y PCM gredydau yn y ddau gynllun, bydd y swm yn cael ei gymhwyso i'r cyfrif a fyddai'n fwyaf buddiol i'r PCM. Os nad oes eisiau'r credyd ar y PCM i gael ei gymhwyso yn y fath fodd, mae'n rhaid iddo hysbysu gweinyddwr y cynllun yn unol â'r cyfarwyddiadau i'w darparu o fewn y datganiad, o fewn 6 mis o'i gyhoeddi.

## Aelod Debyd Pensiwn

94. Bydd y cyfrifiad ar gyfer debydau pensiwn yn cael ei ailymweld i sicrhau bod y debyd yn cael ei gyfrifo megis ar ddyddiad prisio'r PSO yn seiliedig ar wasanaeth adferadwy'r PDMau yn y cynlluniau gwaddol a diwygiedig. Bydd RSS yr aelod yn cyflwyno'r cyfrifiadau perthnasol gan ystyried debydau yn y ddau gynllun. Bydd y debyd fydd yn cael ei gymhwyso yn seiliedig ar benderfyniad Dewis Gohiriedig yr aelodau (neu unrhyw ddewis a bennir ar gyfer buddion cynllun diwygiedig).

*Mae rheoliadau drafft 18 a 21 yn gymwys.*

## PSOau a gyfrifir ar ôl 1 Hydref 2023

95. Lle mae PSO yn cael ei gyfrifo am y tro cyntaf ar ôl 1 Hydref 2023, bydd rheolwr y cynllun yn darparu'r uchaf o'r CETVau a gyfrifir i'r llys o dan reolau cynllun gwaddol yn ogystal â diwygiedig. Bydd y gwerth ar gyfer y PCM yn cael ei gyfrifo yn unol â'r gwerth uchaf posibl.

96. Ar gyfer y PDM, bydd y cynllun yn cynnwys manylion o'r debyd a gyfrifir o dan reolau'r cynllun gwaddol yn ogystal â diwygiedig ac yn darparu'r gwerthoedd hyn yn RSS yr aelod. Ar ôl i'w Ddewis Gohiriedig gael ei gadarnhau, bydd buddion yr aelod yn cael eu talu a'r debyd perthnasol yn cael ei gymhwyso i'w gyfrif pensiwn.

*Mae rheoliadau drafft 23 a 24 yn gymwys.*

## Trefniadau ysgariad/diddymiad ac eithrio PSOau

97. Lle mae gwerth hawliau adferadwy aelod yn gorfod cael eu pennu at ddiben achos ysgariad neu ddiddymiad ar ôl 1 Hydref 2023, gwerth yr hawliau fydd y mwyaf o'r gwasanaethau gwaddol neu ddiwygiedig.

*Mae rheoliad drafft  25 yn gymwys.*

# Hyblygrwyddau Cynllun

98. O dan drefniadau TPS presennol, mae aelodau'n gallu dewis cynyddu eu buddion cynllun trwy brynu hyblygrwyddau cynllun. Mae rheoliadau cynlluniau gwaddol a diwygiedig yn darparu ar gyfer Budd Pensiwn Ychwanegol (APB), tra bod rheoliadau diwygiedig yn unig yn caniatáu am Gronni Cyflymach a Phrynu Allan.

99. Mae'n rhaid i APB gael ei brynu mewn unedau llawn o £250 y flwyddyn a gellir talu amdano mewn cyfandaliad untro neu drwy ddidyniadau misol o gyflog yr aelod yn unol â'i oedran a'i gynllun presennol. Mae unrhyw APB sy'n cael ei brynu yn cael ei dalu pan fydd yr aelod yn cymryd ei fuddion ymddeoliad cynllun safonol ac sy'n cael ei addasu'n actiwaraidd fel y bo'n gymwys. Megis â buddion prif gynllun, mae'r aelod yn gallu dewis trosi rhan o'i APB blynyddol i gyfandaliad untro.

100. Mae aelodau o'r cynllun diwygiedig yn gallu dewis 'Prynu Allan' y gostyngiad actiwaraidd sy'n gymwys i fuddion pensiwn wrth ymddeol cyn Oedran Pensiwn Arferol (NPA). Mae aelodau'n gallu gwneud dewis Prynu Allan yn y chwe mis cyntaf yn unig o fynd i mewn i'r cynllun hwnnw. Mae'n rhaid i gyfraniadau wedyn gael eu talu wrth i wasanaeth gael ei gronni trwy gydol gyrfa'r aelod, neu hyd bod y dewis yn cael ei ddiddymu.

101. Mae aelodau o'r cynllun diwygiedig hefyd yn gallu dewis talu cyfraniadau uwch i gynyddu eu cyfradd cronni pensiwn ar gyfer blwyddyn cynllun neilltuol, sy'n cael ei adnabod fel Cronni Cyflymach. Mae'n rhaid i ddewis gael ei wneud ar gyfer pob blwyddyn, sy'n rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Mae aelodau'n gallu gwella'r gyfradd gronni safonol o 1/57 o enillion pensiynadwy i 1/55, 1/50 neu 1/45.

102. Mae'r holl hyblygrwyddau yn cael eu cyfrifo yn unol â ffactorau a chyfarwyddyd a ddarperir gan GAD. Mae rhagor o fanylion ar hyblygrwyddau cynllun yn gallu cael eu canfod yn y daflen ffeithiau hyblygrwyddau cynllun.

## Effaith yr adferiad

103. Mae rhai aelodau wedi prynu hyblygrwyddau yn y cynllun diwygiedig yn ystod y cyfnod adfer ond, yn dilyn rolio yn ôl ac yn unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf, byddant yn cael eu trin fel pe byddent yn aelodau o'r cynllun

gwaddol bob amser. Mae’n rhaid i ddewisiadau cynllun diwygiedig gael eu rheoli hefyd.

104. Mae’r Ddeddf yn diddymu’r hawliau sy’n codi o hyblygrwyddau cynllun diwygiedig a gymerir allan yn ystod y cyfnod adfer ac felly mae’r rheoliadau drafft hyn yn darparu ar gyfer cynnig hawliau amgen i aelodau yn y cynllun gwaddol neu iawndal am y cyfraniadau ychwanegol a gafodd eu gwneud.

105. O 1 Hydref 2023 bydd gweinyddwr y cynllun yn dechrau gweithredu’r newidiadau hyn ac yn dechrau cysyltu ag aelodau â hyblygrwyddau cynllun diwygiedig i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â’u hopsiynau a ‘u hawliau amgen ar gael yn y cynllun gwaddol.

106. Bydd yr hysbysiad yn darparu manylion o sut mae’r aelod yn gallu gwneud dewis mewn perthynas â’i hyblygrwyddau cynllun diwygiedig, effeithiau ei benderfyniad ar ei opsiynau Dewis Gohiriedig ar adeg ymddeoliad a’r cyfnod o amser y mae’n rhaid i ddewis gael ei wneud ynddo. Hysbysir yr aelod lle nad oes dewis yn cael ei wneud cyn diwedd y cyfnod dewis, bydd y cynllun yn gweithredu dewis diofyn ac mae’r dewis hwnnw yn ddiwrthdro.

107. Yr opsiynau a ddarperir i aelodau mewn perthynas â’u hyblygrwyddau cynllun diwygiedig yw: -

a) cynnal eu dewis hyblygrwydd: cadw’r taliadau o fewn y cynllun fydd yn cael ei ailadeiladu fel Budd Pensiwn Ychwanegol (APB) cynllun gwaddol; neu

b) ganslo’r dewis hyblygrwydd a derbyn taliad iawndal ar unwaith ar gyfer y cyfraniadau a dalwyd; neu

c) ganslo’r dewis hyblygrwydd (opsiwn b) ond cytuno i’r cynllun ddal yr iawndal hyd adeg gwneud eu Dewis Gohiriedig.

108. Lle mae aelod yn dewis opsiwn (a), bydd cyfraniadau a wnaed yn cael eu hailadeiladu i brynu APB yn y cynllun gwaddol a bydd unrhyw gynllun talu

sy’n weddill yn parhau heb newid. Os yw’r aelod yn dewis buddion cynllun diwygiedig ar gyfer ei DC ar adeg ymddeol, bydd yr hawliau’n cael eu hamrywio i ddarparu’r budd hyblygrwydd cynllun diwygiedig cyfatebol fel y cymerwyd allan yn wreiddiol.

109. Lle mae aelod yn dewis opsiwn (b), bydd y dewis yn cael ei ddiddymu’n llwyr, gan derfynu unrhyw gynllun talu cytunedig a bydd yn derbyn iawndal cydradd â’r cyfraniadau a dalwyd i’r cynllun (a llog cymwys). Ni fydd yr hyblygrwydd yn cael ei gynnwys yn yr opsiwn DC a gyflwynir ar ymddeoliad.

110. Lle mae aelod yn dewis opsiwn (c), fel opsiwn (b) mae’r dewis yn cael ei ddiddymu a byddai ei gynllun talu yn dod i ben. Ni fyddai APB gwaddol yn cael ei ailadeiladu a byddai’r iawndal cymwys yn cael ei ddal yn y cynllun hyd ei DC. Os ar adeg ymddeol yw’r aelod yn dewis derbyn buddion cynllun diwygiedig, bydd hyn yn cynnwys gwerth yr hyblygrwyddau cynllun diwygiedig a brynwyd rhwng y dyddiad y cafodd dewis yr hyblygrwyddau ei wneud a’r dyddiad y peidiodd y taliadau. Os yw’r aelod yn gwneud dewis ar gyfer buddion cynllun gwaddol, bydd yn derbyn buddion cynllun gwaddol ac iawndal cyfatebol i’r cyfraniadau a dalwyd i’r cynllun ar gyfer yr hyblygrwydd cynllun diwygiedig hwnnw.

111. Mae aelodau’n gallu gwneud dewis newydd ar gyfer hyblygrwyddau cynllun diwygiedig yn unol â rheolau cynllun presennol o1 Ebrill 2022. Lle mae aelod yn dymuno gwneud dewis Prynu Allan cyfeiriwch at baragraffau 120-123.

112. Lle nad yw aelod yn cyfathrebu ei ddewis i’r cynllun erbyn diwedd 6 mis o gyhoeddi’r hysbysiad, bydd cais diofyn yn cael ei gymhwyso i hyblygrwyddau cynllun diwygiedig gael eu hailadeiladu i mewn i gynllun gwaddol APB (opsiwn a). Mae hyn yn sicrhau bod y cyfraniadau ychwanegol a dalwyd gan yr aelod i’r cynllun yn darparu budd cyfatebol ychwanegol ac mae’n diogelu’r dewis hyblygrwydd gwreiddiol lle mae buddion diwygiedig yn cael eu cymryd ar ymddeoliad.

113. Bydd unrhyw ddewis (neu ddewis a bennir) mewn perthynas â hyblygrwyddau cynllun diwygiedig yn cael ei gynnwys yng nghyfrifiadau buddion yr aelod a'u cyflwyno yn ei RSS.

*Mae rheoliadau drafft 27 a 28 yn gymwys.*

## Aelodau sy'n dewis buddion cynllun diwygiedig ar adeg DCU

114. Lle mae aelod yn dewis buddion cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod adfer ac nad yw'n dewis ad-daliad ar unwaith (opsiwn b) ar adeg rolio yn ôl, byddai'n derbyn buddion cyfatebol i'r rheini y byddai wedi eu derbyn pe na byddai ei fuddion cynllun diwygiedig wedi cael eu diddymu.

115. Mae hyn yn golygu i bob pwrpas lle mae aelod yn dewis cael ailadeiladu ei fuddion cynllun diwygiedig i gynllun gwaddol APB (opsiwn a), neu lle mae'r aelod yn ildio iawndal ar gyfer cyfraniadau hyblygrwydd cynllun diwygiedig hyd ei benderfyniad DC (opsiwn c), bydd ei fuddion gwasanaeth cynllun diwygiedig cyfatebol adferadwy yn cynnwys gwerth unrhyw hyblygrwyddau cynllun diwygiedig (yn amodol ar y swm o gyfraniadau a dalwyd).

116. Lle prynodd aelod APB cynllun gwaddol yn ystod y cyfnod adfer ac mae'n dewis buddion cynllun diwygiedig yn DCU, bydd ganddo'r opsiynau canlynol: -

(a) ailadeiladu APB cynllun gwaddol cyfatebol i APB cynllun diwygiedig; neu
(b) ganslo'r dewis a derbyn taliad iawndal ar unwaith ar gyfer y cyfraniadau a dalwyd.

117. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu dangos yn RSS yr aelod.

*Mae rheoliadau drafft 34 – 40 yn gymwys.*

## Darpariaeth i aelodau dalu cyfraniadau gwirfoddol i'r cynllun gwaddol.

118. Mae’r rheoliadau drafft hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodau cymwys â gwasanaeth adferadwy i brynu cynllun gwaddol APB yn ôl-syllol ar gyfer y cyfnod adfer.

119. Mae’n rhaid i’r aelod fod yn weithredol neu’n ohiriedig a bydd angen iddo fodloni rheolwr y cynllun y byddai wedi mynd i mewn i drefniant i brynu APB cynllun gwaddol pe byddai wedi bod yn y cynllun hwnnw ar y pryd. Mae’n rhaid i’r cais gael ei gwblhau o fewn 12 mis o 1 Hydref 2023 ac mae rheoliadau drafft felly’n gofyn i aelodau gyflwyno cais o fewn 6 mis. Mae hyn er mwyn caniatáu amser digonol i ystyried y cais ac i gwblhau trefniadau talu.

*Mae rheoliad drafft 41 yn gymwys.*

## Darpariaeth i aelodau brynu dewis Prynu Allan

120. Mae rheoliadau TPS presennol yn caniatáu i aelodau wneud dewis i Brynu Allan y gostyngiad actiwaraidd rhwng oedran 65 a 68, sy’n gymwys i fuddion pensiwn os yw’r aelod yn ymddeol cyn cyrraedd ei NPA cynllun diwygiedig. Mae gan aelod 6 mis o fynd i mewn i’r cynllun diwygiedig i ddewis ar gyfer yr opsiwn hwn.

121. Mae darpariaethau rolio yn ôl y Ddeddf yn golygu y bydd holl wasanaeth adferadwy cynllun diwygiedig yn cael ei rolio yn ôl i’r cynllun gwaddol ac felly ni fydd yr aelodau hyn wedi mynd i mewn yn effeithiol i’r cynllun diwygiedig hyd 1 Ebrill 2022. O dan y rheolau presennol ar ddewisiadau Prynu Allan, byddai’r ffenestr gymwys felly o 1 Ebrill 2022 i 30 Medi 2022.

122. Gan na fydd darpariaethau rolio yn ôl yn y Ddeddf a rheoliadau penodol i’r cynllun yn dod i rym hyd 1 Hydref 2023, bydd y ffenestr ar gyfer aelodau a effeithir wedi cau cyn i aelodau fod wedi cael y cyfle i ymgeisio.

123. Mae’r rheoliadau drafft felly’n gwneud darpariaeth i greu ffenestr dewis Prynu Allan ar gyfer aelodau cymwys i ganiatáu 6 mis o 1 Hydref 2023 ar gyfer cais. Mae’r mesur hwn yn sicrhau triniaeth gyfartal gydag aelodau gwarchodedig oedd â mynediad i’r ffenestr Prynu Allan pan aethant i mewn i’r cynllun diwygiedig ar 1 Ebrill 2022. Tynnodd cyfathrebiadau TPS

sylw'r aelodau hyn at gau'r cynllun ac opsiynau cynllun diwygiedig cyn symud i'r cynllun hwnnw.

*Mae rheoliad drafft 30 yn gymwys.*

## Trosglwyddiadau

124. Wrth ymuno â'r TPS, gall aelodau ddymuno trosglwyddo pensiwn o gyflogaeth flaenorol i'r TPS, neu i'r gwrthwyneb pan fydd aelod yn gadael y TPS gall ddymuno trosglwyddo'i bensiwn TPS i gynllun buddion diffiniedig arall. Mae rheolau presennol yn caniatáu tri dull o drosglwyddo i mewn ac allan o'r TPS: trosglwyddiad clwb, trosglwyddiad Gwerth Trosglwyddo Cyfatebol i Arian (CETV) a throsglwyddiad swp.

### Trosglwyddiad Clwb

125. Mae'r TPS yn rhan o'r Clwb Trosglwyddo Sector Cyhoeddus (y Clwb) sy'n hwyluso symudiad hawliau pensiwn yn y sector cyhoeddus. Mae'r Clwb yn

galluogi aelodau i drosglwyddo rhwng cynlluniau sy'n cymryd rhan ar y sail y bydd yr aelod yn derbyn buddion o werth cyfatebol yn y cynllun sy'n derbyn.

### Trosglwyddiad CETV (yn cynnwys trosglwyddiad heb fod yn un clwb)

126. Gall trosglwyddiad CETV ddigwydd i mewn neu allan o'r TPS lle:

    a. mae unigolyn yn ymuno â'r TPS o gynllun nad yw'n un clwb.
    b. mae aelod yn newid cyflogaeth ac nid yw cynllun ei gyflogwr newydd yn cael ei gwmpasu gan y Clwb.
    c. Nid yw trosglwyddiad Clwb yn bosibl, er enghraifft lle na chafodd meini prawf y trosglwyddiad Clwb eu hateb.

127. Trosglwyddiad CETV yw trosglwyddiad o bensiwn yr aelod yn seiliedig ar y gwerth a gyfrifwyd o'i fuddion cronedig. Mae gwerth y trosglwyddiad yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau a chyfarwyddyd a ddarperir gan GAD, â CETV ar wahân wedi'i gyfrifo ar gyfer croniad cyflog terfynol a chroniad cyfartaledd gyrfa, yn ogystal ag unrhyw hyblygrwyddau a brynwyd. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu cyfuno i gynhyrchu cyfanswm CETV, sy'n cael ei ddefnyddio gan y cynllun sy'n derbyn i gyfrifo buddion yn y cynllun hwnnw.

### Trosglwyddiad swp

128. Yn achos trosglwyddiad gorfodol o aelodau o un cyflogwr i un arall sy'n cynnig math gwahanol o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus budd diffiniedig (neu i'w gymharu yn fras), gall trosglwyddiad swp ddigwydd.

129. Gellir canfod rhagor o fanylion ar drosglwyddiadau ar [wefan y TPS](#).

## Effaith yr adferiad

130. O ganlyniad i'r adferiad, mae rheolau TPS newydd yn ofynnol mewn perthynas â throsglwyddiadau i mewn ac allan o'r TPS sy'n cynnwys gwasanaeth adferadwy. Mae rheoliadau drafft yn darparu pan fydd gwerthoedd trosglwyddo yn cael eu cyfrifo, bydd aelodau a gwasanaeth adferadwy yn dewis naill ai defnyddio buddion cynllun diwygiedig neu fuddion cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod adfer.

## Trosglwyddiadau a gwblheir cyn 1 Hydref 2023

131. Ailymwelir â phob trosglwyddiad sy'n ymwneud â gwasanaeth adferadwy wedi'i gwblhau cyn 1 Hydref 2023 fel rhan o'r adferiad. Mae hyn er mwyn darparu eu penderfyniad DC i aelodau sy'n cynnwys gwasanaeth trosglwyddedig adferadwy.

## Datganiad Gwasanaeth Adferadwy a gwasanaeth wedi'i drosglwyddo allan

132. Lle trosglwyddodd aelod wasanaeth adferadwy wedi'i drosglwyddo allan o'r TPS, bydd rheolwr y cynllun yn darparu RSS. Bydd hyn yn manylu ar: -

a) werth unrhyw hawliau ychwanegol mewn perthynas â gwasanaeth adferadwy y byddai'r aelod wedi bod â hawl iddo yn union cyn y trosglwyddiad o ganlyniad i rolio yn ôl,

b) yr opsiynau (os o gwbl) sydd ar gael mewn perthynas â thriniaeth yr hawliau ychwanegol hynny, a

c) lle mae unrhyw opsiynau o'r fath, yr amgylchiadau, a'r broses, y gellr dewis opswin ynddynt a thrwyddi.

*Mae rheoliad drafft 43 yn gymwys.*

## Trosglwyddiadau CETV a gwblheir cyn 1 Hydref 2023 (gan gynnwys trosglwyddiadau heb fod yn rhai clwb)

133. Lle trosglwyddodd aelod allan o'r TPS cyn 1 Hydref 2023, ni fydd y CETV a gyfrifwyd ac a ddarparwyd i'r cynllun sy'n derbyn wedi cynnwys

gwybodaeth ynghylch yr adferiad. Pan fydd rheoliadau'n dod i rym, bydd gweinyddwr y cynllun yn dechrau gweithgaredd cywiro a bydd yn ailymweld â phob cyfrifiad CETV adferadwy i ystyried gwasanaeth adferadwy'r aelod.

134. Mae rheoliadau drafft yn darparu y bydd y cynllun yn cyfrifo gwerth trosglwyddo gwasanaeth adferadwy'r aelod o dan y cynlluniau gwaddol a diwygiedig a bydd yn talu'r gwerth uwch i'r cynllun sy'n derbyn lle'n bosibl. Lle nad yw'r gwerth yn gallu cael ei dalu i'r cynllun, er enghraifft os nad yw'r cynllun arall yn bodoli mwyach, bydd yr aelod yn derbyn iawndal sy'n cynrychioli'r swm hwnnw.

135. Bydd y manylion am sut i hawlio iawndal yn cael eu cynnwys yn RSS yr aelod mewn perthynas â gwasanaeth wedi'i drosglwyddo allan.

*Mae rheoliad drafft 44 yn gymwys.*

136. Lle trosglwyddodd aelod i mewn i'r TPS o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a effeithiwyd ar sail heb fod yn un clwb cyn 1 Hydref 2023, ni fydd y CETV a ddarparwyd i'r TPS wedi cymryd yr adferiad i ystyriaeth. Gan fod y gwasanaeth trosglwyddedig hwn yn gyfnod o wasanaeth adferadwy, darperir CETV uwch i'r TPS gan y cynllun sy'n anfon. Mae'r rheoliadau drafft yn gofyn y byddai hyn yn cael ei ddal gan y TPS i'w gynnwys mewn cyfrifiadau o dan reolau cynllun gwaddol yn ogystal â diwygiedig, i'w gweithredu pan fydd yr aelod yn gwneud ei benderfyniad DCU.

*Mae rheoliad drafft 45 yn gymwys.*

## Trosglwyddiadau clwb a gwblheir cyn 1 Hydref 2023

137. Lle trosglwyddodd aelod wasanaeth adferadwyd i mewn i neu allan o'r TPS a chynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn 1 Hydref 2023, bydd yn parhau i dderbyn dewis naill ai i dderbyn buddion cynllun gwaddol neu gynllun diwygiedig yn y cynllun sy'n derbyn.

138. Pan drosglwyddodd aelod allan o'r TPS ar sail Clwb cyn 1 Hydref 2023, bydd y gwerth trosglwyddo wedi cael ei seilio ar groniad yr aelod yn ystod y cyfnod adfer cyn gweithredu'r adferiad. Pan ddaw rheoliadau i rym, ailymwelir â gwerthoedd trosglwyddo i ystyried gwasanaeth adferadwy'r aelod.

139. Mae'r rheoliadau drafft yn darparu y bydd y cynllun yn cyfrifo gwerth trosglwyddo gwasanaeth adferadwy'r aelod o dan cynlluniau gwaddol a diwygiedig, yn unol â rheolau trosglwyddo Clwb. Bydd y TPS yn darparu'r ddau werth i'r cynllun sy'n derbyn, i'w cynnwys yn RSS yr aelod i ffurfio ei benderfyniad DCU.

*Mae rheoliad drafft 48 yn gymwys.*

140. Lle trosglwyddodd aelod i mewn i'r TPS ar sail Clwb cyn 1 Hydref 2023, bydd y cynllun sy'n anfon wedi darparu gwerth trosglwyddo yn seiliedig ar groniad yr aelod yn ystod y cyfnod adfer i'r TPS. Bydd y cynllun sy'n anfon yn ailymweld â'r gwerth trosglwyddo gan gyfrifo'r gwerth o dan y ddau gynllun. Bydd y TPS wedyn yn dal y ddau gyfrifiad ar gofnod yr aelod ac yn cymhwyso'r rheini wrth gyfrifo'r opsiynau ymddeol.

*Mae rheoliad drafft 49 yn gymwys.*

## Trosglwyddiadau a gwblheir ar ôl 1 Hydref 2023

### Trosglwyddiadau CETV (gan gynnwys trosglwyddiad heb fod yn un clwb)

141. Lle mae aelod yn trosglwyddo allan o'r TPS ar ôl 1 Hydref 2023, i adlewyrchu rheoliadau drafft gwasanaeth adferadwy'r aelod yn darparu y bydd y TPS yn cyfrifo'r  CETV o dan gynlluniau gwaddol a diwygiedig ar gyfer unrhyw wasanaeth adferadwy a bydd yn talu'r gwerth uchaf i'r cynllun sy'n derbyn.

*Mae rheoliad drafft 46 yn gymwys.*

142. Lle mae aelod yn trosglwyddo i mewn i'r TPS ar ôl 1 Hydref 2023 ar sail CETV, bydd y cynllun sy'n anfon yn cwblhau'r ddau gyfrifiad CETV ac yn talu'r gwerth uwch i'r TPS.

*Mae rheoliad drafft 47 yn gymwys.*

## Trosglwyddiadau clwb ar ôl 1 Hydref 2023

143. Lle mae aelod yn trosglwyddo allan o'r TPS ar sail Clwb ar ôl 1 Hydref 2023, mae'r rheoliadau drafft yn darparu y bydd y cynllun yn cyfrifo gwerth trosglwyddiad gwasanaeth adferadwy'r aelod o dan y cynlluniau gwaddol a diwygiedig, yn unol â rheolau trosglwyddo'r Clwb. Bydd y cynllun sy'n derbyn yn cymhwyso'r gwerthoedd hyn wrth gyfrifo'r opsiynau buddion ymddeoliad ar gyfer ei DC.

*Mae rheoliad drafft 51 yn gymwys.*

144. Lle mae aelod yn trosglwyddo i mewn i'r TPS ar sail Clwb ar ôl 1 Hydref 2023, bydd y cynllun sy'n anfon yn darparu dau werth trsoglwyddo a gyfrifir o dan reolau cynlluniau gwaddol a diwygiedig ar gyfer y cyfnod adfer. Bydd y TPS yn dal y ddau werth ar gofnod ac yn cymhwyso'r rhain i opsiynau'r aelod ar ymddeoliad.

*Mae rheoliad drafft 52 yn gymwys.*

## Trosglwyddiadau Swp

145. Mae data cynllun yn dangos nad oes trosglwyddiadau swp wedi bod i mewn i nac allan o'r TPS yn ystod y cyfnod adfer. Pe byddai trosglwyddiad swp yn cynnwys gwasanaeth adferadwy yn digwydd yn y dyfodol, bydd y TPS yn dilyn y broses trosglwyddiad swp gan ddilyn y darpariaethau mewn rheoliadau presennol. Byddai cyfrifiad buddion cyfnod adferiad cronedig yn cael ei gwblhau yn unol ag ymagwedd y trosglwyddiad Clwb, fel yr amlinellir uchod.

## **Ymddeoliad Salwch**

146. Mae rheolau'r TPS yn darparu ar gyfer aelodau sy'n rhy sâl i barhau i addysgu i ymgeisio am ymddeoliad salwch. Ar yr amod fod yr aelod wedi cymhwyso ar gyfer buddion ymddeoliad, gall aelodau ymgeisio am

ymddeoliad salwch ar unrhyw adeg cyn iddynt gyrraedd NPA eu cynllun. I fod yn gymwys ar gyfer ymddeoliad salwch, mae'n rhaid i aelod mewn gwasanaeth ateb meini prawf naill ai Haen 1 neu Haen 2. Lle mae'r aelod allan o wasanaeth, mae'n rhaid i feini prawf Haen 2 gael eu hateb i fuddion Haen 1 gael eu talu. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ymddeoliad salwch ar wefan TPS.

### Effaith yr adferiad

147. Pan ymgeisiodd aelod am ymddeoliad salwch yn ystod y cyfnod adfer a chafodd ei wrthod, gallai o ganlyniad fod wedi gadael cyflogaeth addysgu (gan ddod yn aelod gohiriedig) neu arhosodd yn aelod gweithredol mewn gwasanaeth pensiynadwy os teimlai ei fod yn gallu gwneud hynny ac roedd eisiau parhau i weithio arno. Gall yr aelodau hyn fod wedi bod yn gymwys ar gyfer ymddeoliad salwch yn y cynllun amgen pe byddent wedi gallu ymgeisio i'r cynllun hwnnw ar y pryd. Felly, yn unol ag ymagwedd yr adferiad i ddileu'r gwahaniaethu a darparu dewis i aelodau cymwys, mae'r rheoliadau drafft yn gwneud darpariaeth i'r fath aelodau gael eu hailasesu yn erbyn meini prawf ymddeoliad salwch y cynllun arall oedd yn gymwys ar yr adeg y gwnaethant eu cais salwch. Mae manylion y cynnig ar reoliadau drafft perthnasol yn cael eu hamlinellu isod.

## Pennu a yw aelod yn ateb y meini prawf ym mhob cynllun

148. Lle mae aelod gweithredol neu ohiriedig wedi ymgeisio am ymddeoliad salwch mewn perthynas â'i wasanaeth adferadwy ar ôl 1 Ebrill 2015 a bod y cais hwnnw wedi cael ei wrthod cyn 1 Hydref 2023, mae'n rhaid i'r cynllun ailasesu'r aelod yn erbyn meini prawf salwch y cynllun arall.

149. Lle mae aelod gohiriedig o'r cynllun yn gwneud cais ymddeoliad salwch allan o wasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2022 ac mae'r cais yn cael ei benderfynu'n derfynol o 1 Hydref 2023 ymlaen, mae'n rhaid i'r aelod gael ei asesu yn erbyn meini prawf salwch y cynlluniau gwaddol a diwygiedig. Mae hyn

oherwydd y daeth gwasanaeth yr aelod i ben yn ystod ei gyfnod adferadwy ac nad oedd ganddo wasanaeth pensiynadwy yn y cynllun newydd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022, felly yn unol â'i DCU gall fod gan yr aelod hawl i ddewis o fuddion salwch cynllun gwaddol neu fuddion salwch cynllun newydd, gan ddibynnu ar ganlyniadau'r asesiad.

*Mae rheoliad drafft 61 yn gymwys.*

## Buddion ymddeoliad salwch yn dilyn ailasesiad

150. Lle mae aelod yn bodloni meini prawf y cynllun amgen yn dilyn ailasesiad, bydd yn derbyn hysbysiad fod ganddo'r cyfle i wneud dewis ymddeoliad salwch ar unwaith. Bydd yr hysbysiad yn manylu ar y buddion ymddeoliad salwch sydd ar gael i'r aelod, y broses mae'r aelod yn gallu dewis cymryd y buddion ymddeoliad salwch drwyddi a'r effeithiau o wneud (neu beidio â gwneud) dewis.

151. Os nad yw'r aelod yn gwneud dewis cyn diwedd y cyfnod 3 mis o'r dyddiad y cafodd yr hysbysiad ei gyhoeddi, yna'r cynnig yw na fydd yr opsiwn ymddeoliad salwch hwn ar gael mwyach i'r aelod. Mae hyn oherwydd bod ymddeoliad salwch ond yn cael ei ddyfarnu lle penderfynir gan reolwr y cynllun bod rhywun yn analluog i ymgymryd â naill ai gwaith addysgu, neu unrhyw gyflogaeth arall, yn dibynnu ar gategori'r salwch yr ymgeisiwyd amdano. Os yw'r aelod yn dewis peidio cymryd buddion ymddeoliad salwch sydd ar gael o dan y cynnig adfer, nid yw'n gallu cael ei bennu i barhau i ateb meini prawf yr ymddeoliad yn amhenodol. Felly, mae angen toriad i ffwrdd ac ystyrir cyfnod o 3 mis yn ddigonol i'r aelod wneud ei benderfyniad ynghylch a oes eisiau ymddeol ar seiliau salwch arno.

152. Lle mae hyn yn cynnwys aelod gweithredol, mae'n rhaid iddo adael pob cyflogaeth bensiynadwy cyn diwedd y cyfnod 3 mis (neu gyfnod hirach yr ystyrir sy'n rhesymol gan reolwr y cynllun). Os nad yw'n gadael cyflogaeth bensiynadwy, bydd dewis ar gyfer buddion ymddeoliad salwch yn cael ei drin fel pe byddai heb gael ei wneud. Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu'r rheolau presennol lle os yw aelod gweithredol yn dymuno ymddeol ar sail

salwch mae'n rhaid iddo adael pob cyflogaeth bensiynadwy cyn derbyn ei fuddion salwch.

*Mae rheoliad drafft 62 yn gymwys.*

## Buddion ymddeoliad salwch sy'n daladwy mewn achosion trawsnewidiol

153. Gall rhai aelodau fod wedi ymgeisio am ymddeoliad salwch cyn 1 Ebrill 2022, ond gall y cais fod heb gael ei benderfynu hyd ar ôl y dyddiad hwn a pharhaodd yr aelod i addysgu. Wrth iddo barhau mewn cyflogaeth bensiynadwy ar ôl 1 April 2022, bydd wedi trawsnewid i'r cynllun diwygiedig cyn i'w gais gael ei benderfynu.

154. Gall yr aelodau hyn fodloni meini prawf salwch y cynllun diwygiedig a/neu byddai wedi bodloni meini prawf y cynllun gwaddol pe byddai'r cais wedi cael ei benderfynu ar neu gyn 31 Mawrth 2022.

155. Yn y fath achosion bydd ategiad salwch yn gweithredu sy'n golygu y bydd cais yr aelod yn cael ei brofi yn erbyn meini prawf salwch y ddau gynllun. Mae hyn yn golygu y bydd gan yr aelod hawl i dderbyn buddion salwch yn daladwy o'r cynllun diwygiedig sydd ddim yn llai hael na'r rheini a fyddai wedi bod yn daladwy o'r cynllun gwaddol, pe byddai'r aelod wedi cymhwyso ar gyfer y fath fuddion ac wedi ymddeol ar 31 Mawrth 2022.

156. Lle mae'r aelod yn ateb meini prawf y ddau gynllun, byddant yn derbyn buddion a delir o'r cynllun diwygiedig a bydd y cynllun yn cwblhau cyfrifiad i bennu faint y byddai'r aelod wedi cael ei dalu o dan y cynllun gwaddol, wedi'i gyfrifo megis ar 31 Mawrth 2022. Pe byddai buddion cynllun gwaddol wedi bod yn uwch, bydd buddion y cynllun diwygiedig yn cael eu codi i'r swm hwnnw.

157. Lle mae'r aelod yn bodloni meini prawf y cynllun gwaddol yn unig, bydd yn derbyn buddion ymddeoliad salwch taladwy o'r cynllun diwygiedig wedi'u cyfrifo ar yr un raddfa ag y byddent wedi cael eu talu o'r cynllun gwaddol, megis ar 31 Mawrth 2022.

158. Lle mae'r aelod yn bodloni meini prawf salwch y cynllun diwygiedig yn unig, bydd yn derbyn buddion ymddeoliad salwch cynllun diwygiedig.

159. Bydd yr ategiad salwch hefyd yn gymwys lle cafodd cais aelod am ymddeoliad salwch ei wrthod o dan y cynllun diwygiedig cyn 1 Ebrill 2022 a pharhaodd yr aelod i weithio y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw. Bydd yr ategiad yn gweithredu i ganiatáu i'r aelodau hyn gael eu hailasesu o dan feini prawf ymddeoliad salwch y cynllun gwaddol a, phe byddai'r meini prawf yn cael eu hateb, byddai'n cael ei dalu â buddion ymddeoliad salwch o'r cynllun diwygiedig wedi'u cyfrifo ar y raddfa a fyddai wedi bod yn daladwy megis ar 31 Mawrth 2022.

*Mae rheoliad drafft 63 yn gymwys.*

## Atebolrwyddau a Thaliad

160. O ganlyniad i gymhwysiad yr adferiad a phenderfyniadau penodol a all gael eu cymryd wrth rolio yn ôl, gall gordaliadau wedi bod o gyfraniadau TPS gan rai aelodau.

161. Bydd unrhyw symiau dyledus i aelod yn cael eu dangos yn eglur yn RSS yr aelod gan gynnwys manylion o sut y cafodd y symiau hyn eu cyfrifo a'r swm o log sy'n gymwys. Bydd y RSS hefyd yn manylu sut a phryd y byddai symiau dyledus i'r aelod yn cael eu talu.

162. Gall fod sefyllfaoedd hefyd lle mae aelod yn hawlio iawndal yn llwyddiannus o'r cynllun o ganlyniad i'r gwahaniaethu neu gymhwysiad yr adferiad (paragraffau gweler 167 i 169).

### Tynnu Swm i Ffwrdd

163. Lle mae symiau'n ddyledus i aelod gan y cynllun a symiau sy'n ddyledus i'r cynllun gan yr aelod, bydd y symiau hyn yn cael eu haddasu trwy symiau treth perthnasol ac yna eu tynnu i ffwrdd i gyfrifo atebolrwydd terfynol.

164. Bydd rhaid i daliadau gael eu haddasu trwy symiau treth perthnasol oherwydd lle mae aelod wedi gordalu symiau i'r cynllun, bydd wedi derbyn gormod o ryddhad treth ar ei gyfraniadau pensiwn.

*Mae rheoliadau drafft 69 a 70 yn gymwys.*

## Llog

165. Bydd llog yn cael ei gymhwyso i bob swm sy'n ddyledus, a yw hyn yn cynnwys symiau dyledus i aelod gan y cynllun, neu i'r cynllun gan aelod. Mae cyfarwyddiadau Trysorlys EF yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â'r graddfeydd llog sy'n gymwys lle mae dyledion penodol yn codi. Mae'n rhaid i log ar symiau dyledus i ac o'r cynllun gael eu cyfrifo yn unol â'r cyfarwyddiadau hynny. Mae sawl rheswm pam mae'n rhaid i log gael ei gymhwyso i daliadau, ond yn bennaf mae gofyniad i adlewyrchu'r sefyllfa y gall yr aelod fod wedi bod ynddi mor agos â phosibl. Yn gyffredinol, lle mae symiau yn ddyledus i'r aelod mae'r gyfradd llog yn uwch na'r gyfradd llog a gymhwysir i symiau sy'n ddyledus i'r cynllun.

166. Mae rhagor o wybodaeth am gyfarwyddiadau Trysorlys a sail resymegol dros yr ymagwedd at gymhwyso llog yn gallu cael ei ganfod ar WWW.GOV.UK.

*Mae rheoliad drafft 66 yn gymwys.*

## Iawndal

167. Mae darpariaethau yn y Ddeddf yn caniatáu i gynlluniau dalu iawndal i aelodau am golledion ariannol uniongyrchol sydd wedi codi o ganlyniad i wahaniaethu a gafodd ei nodi neu gymhwysiad yr adferiad. Mae'r rheoliadau drafft yn caniatáu i aelodau a effeithir wneud cais am iawndal.

168. Bydd cais am iawndal yn cael ei gychwyn gan yr aelod ac mae'n rhaid iddo ddarparu tystiolaeth am ei golled ariannol. Mae'n rhaid i unrhyw iawndal gael ei bennu yn unol â'r Ddeddf a chyfarwyddiadau perthnasol Trysorlys EF.

169. Bydd gwefan y TPS yn cael ei diweddaru i amlinellu sut y mae aelod yn gallu gwneud cais am iawndal a chyrchu'r ffurflen gais berthnasol i'w

chwblhau. Bydd hefyd yn cynnwys manylion o sut y byddai unrhyw apeliadau wedi cael eu trafod. Nid oes angen ffurflen gais ar aelodau i dderbyn eu dewis o fuddion ar gyfer y cyfnod adfer. Bydd gweinyddwr y cynllun yn cysylltu â phob aelod a effeithir dros gyfnod o amser o 1 Hydref 2023 i ddarparu gwybodaeth berthnasol.

*Mae rheoliad drafft 68 yn gymwys.*

## Opsiwn i ildio dyled sy'n ddyledus i'r aelod ar gyfer cywiriad ar unwaith

170. Ar 1 Hydref 2023 bydd pob gwasanaeth cynllun diwygiedig yn cael ei rolio yn ôl i'r cynllun gwaddol, a allai arwain at aelod wedi gwneud cyfraniadau taledig i'r cynllun diwygiedig sydd ddim yn bensiynadwy yn y cynllun gwaddol. Er enghraifft, gallai hyn godi mewn perthynas â goramser neu Wasanaeth Gormodol Athrawon sydd ddim yn bensiynadwy yn y LGPS (gweler paragraffau 179-187). Y safle diofyn yw y bydd cyfraniadau gordaledig yn cael eu had-dalu i'r aelod trwy gyfrwng iawndal.

171. Mae rheoliadau drafft yn gwneud darpariaeth fodd bynnag i'r aelod ddewis i'r iawndal hwn gael ei 'ildio' hyd ei fod wedi gwneud ei ddewis ar adeg ymddeoliad. Lle mae aelod yn meddwl ei fod yn debygol o ddewis buddion cynllun diwygiedig ar gyfer ei DC, mae'r opsiwn hwn yn ceisio osgoi cywiriad dwbl posibl o gyfraniadau, lle mae'n derbyn iawndal ar adeg rolio yn ôl y byddai angen wedyn ei ad-dalu os yw'n dewis buddion cynllun diwygiedig.

172. Bydd y cynllun yn cynnal cofnod o ddewis yr aelod ar gyfer y cynllun i ddal cyfraniadau, er mwyn i lle maen nhw'n dewis buddion cynllun diwygiedig ar gyfrifiadau budd ymddeoliad gynnwys gwasanaeth perthnasol.

173. Pe byddai'r aelod yn dewis buddion cynllun gwaddol ar ymddeoliad bydd taliad iawndal yn cael ei wneud ar gyfer y cyfraniadau a ordalwyd (â llog cymwys).

174. Byddai gan yr aelod 6 mis o dderbyn hysbysiad bod iawndal yn ddyledus iddo am gyfraniadau a ordalwyd i gadarnhau ei gytundeb i'r iawndal

hwnnw gael ei ildio hyd ei DC. Os nad yw cadarnhad yn cael ei dderbyn gan y cynllun yn y cyfnod dan sylw, bydd yr iawndal yn cael ei dalu ar unwaith.

*Mae rheoliad drafft 72 yn gymwys.*

### Symiau sy'n ddyledus gan y cynllun

175. Bydd y cynllun yn talu unrhyw ddyled sy'n ddyledus i'r aelod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, oni bai fod yr aelod yn dewis ildio'r iawndal am y rhesymau y manylir arnynt uchod.

176. Cyn i swm allu cael ei dalu, gall y cynllun ofyn i'r aelod ddarparu gwybodaeth benodol, megis manylion banc perthnasol.

*Mae rheoliad drafft 75 yn gymwys.*

## Effeithiau eraill yr adferiad sydd ddim yn gofyn am reoliadau

177. Mae nifer o agweddau o'r adferiad sydd ddim yn gofyn am reoliadau newydd yn gyffredinol, fodd bynnag bydd effeithiau o hyd y bydd angen eu hesbonio i aelodau a chyflogwyr cynllun. Mae'r rhain yn cael eu hesbonio yn yr adrannau canlynol.

### Gostyngiad

178. Bydd rheoliadau cynllun presennol ar ostyngiad yn parhau i fod yn gymwys i sicrhau triniaeth gyson o bob aelod. I aelodau DC, bydd y RSS yn manylu ar sut y byddai rheolau gostyngiad yn gymwys o dan y ddau gynllun pe byddai'r aelod yn mynd yn ôl i mewn i gyflogaeth yn dilyn ymddeoliad. Bydd aelodau felly yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am fynd yn ôl i mewn i gyflogaeth bensiynadwy ac effaith gostyngiad, os o gwbl.

### Gwasanaeth Gormodol Athrawon

179. Lle mae gan aelodau gyflogaeth addysgu ychwanegol at gyflogaeth addysgu llawn amser, nid yw'n bensiynadwy yng nghynllun gwaddol y TPS. Cyfeirir at y gwasanaeth amhensiynadwy hwn fel Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn y ddogfen hon.

180. Gall Gwasanaeth Gormodol Athrawon fod yn bensiynadwy yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) os oedd y cyflogwr ar y pryd hefyd yn gyflogwr derbyniol gan LGPS. Lle mae gan aelod Wasanaeth Gormodol Athrawon ac nad oedd ei gyflogwr yn gyflogwr LGPS, nid yw'r gwasanaeth yn bensiynadwy yng nghynllun gwaddol y TPS na'r LGPS.

181. Nid yw Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn bensiynadwy yng nghynllun diwygiedig y TPS, felly nid yw'r mater yn effeithio ar gyflogaeth o 1 Ebrill 2022, ond bydd angen mynd i'r afael â rolio gwasanaeth adferadwy yn ôl o'r cynllun diwygiedig i'r cynllun gwaddol ar 1 Hydref 2023. Mae'r paragraffau canlynol yn esbonio ymagwedd arfaethedig yr Adran.

182. Ar 1 Hydref 2023 bydd gwasanaeth cynllun diwygiedig yn cael ei rolio yn ôl i'r cynllun gwaddol. Gan nad yw Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn bensiynadwy yn yr adran waddol, nid yw'n gallu cael ei rolio yn ôl i'r cynllun hwnnw.

183. Mae Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o wasanaeth adferadwy gan ei ganiatáu i gael ei rolio yn ôl i'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus priodol (hynny yw, y LGPS) lle'n briodol. Bydd y rolio yn ôl hwn yn digwydd yn awtomatig pe byddai'r aelod wedi bod yn gymwys i ymuno â'r LGPS (hynny yw, roedd ei gyflogwr yn gyflogwr LGPS ar gyfer y cyfnod perthnasol o gyflogaeth). Bydd y Gwasanaeth Gormodol Athhrawon wedyn yn ddarostyngedig i reolau LGPS ar gyfer yr adferiad.

184. Lle nad oedd Gwasanaeth Gormodol Athrawon aelod yn bensiynadwy yn y LGPS chwaith (hynny yw, oherwydd nad oedd ei gyflogwr yn gyflogwr a dderbyniwyd gan y LGPS), bydd y darpariaethau a esbonnir ym mharagraffau 170-174 o'r ymgynghoriad yn gymwys. I bob pwrpas, byddai

gan yr aelod hawl i gael taliad iawndal am ei gyfraniadau aelod Gwasanaeth Gormodol Athrawon.

185. Lle mae Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn cael ei symud i mewn i'r LGPS, bydd gan aelodau gweithredol yr opsiwn o dan brosesau 'busnes fel arfer' i drosglwyddo'i wasanaeth LGPS i mewn i'r cynllun TPS diwygiedig. Mae darpariaeth yn cael ei wneud yn y rheoliadau drafft i roi 12 mis i aelodau o ddosbarthiad ei RSS i drosglwyddo gwasanaeth LGPS i mewn i'r cynllun diwygiedig. Nid yw'r opsiwn hwn ar gael bellach lle mae aelod yn cymryd buddion ymddeoliad o'r TPS cyn i drosglwyddiad gael ei gwblhau.

*Mae rheoliad drafft 53 yn gymwys.*

186. Mae'r Adran yn cydnabod bod hyn yn faes polisi cymhleth ac mae'n gweithio'n agos gyda swyddogion o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, sy'n gyfrifol am y LGPS, er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau a phrosesau eglur mewn grym i aelodau a chyflogwyr a effeithir.

187. Gall fod newidiadau canlyniadol ychwanegol i reoliadau TPS yn ofynnol mewn perthynas â Gwasanaeth Gormodol Athrawon i gyflawni'r polisi arfaethedig yn llawn fel y disgrifiwyd. Os yn berthnasol byddai mynd i'r afael â'r rheini yn digwydd yn ymateb yr Adran i'r ymgynghoriad.

# Rhan 2 – Aelodau Dewis Uniongyrchol

## Trosolwg

188. Aelodau Dewis Uniongyrchol yw'r rheini sydd â gwasanaeth yn ystod y cyfnod adfer ac sydd wedi ymddeol neu farw cyn 1 Hydref 2023. Mae'r aelodau hyn (neu eu buddiolwyr) yn derbyn buddion pensiwn eisoes.

189. Ni fydd y buddion a delir i aelodau wedi ymddeol (neu fuddiolwyr aelodau sydd wedi marw) yn newid pan ddaw deddfwriaeth berthnasol i rym ar 1 Hydref 2023. Er y bydd gwasanaeth cynllun diwygiedig a gronnwyd yn ystod y cyfnod adfer yn perthyn yn gyfreithiol yn y cynllun gwaddol, ni fydd y rolio yn ôl hwn yn dod i rym hyd y cymerir y penderfyniad Dewis Uniongyrchol (IC).

190. Darperir Datganiadau Gwasanaeth Adferadwy (RSS) i aelodau IC fydd yn cynnwys manylion o fuddion cyfnod adfer fel pe byddent wedi'u cronni yn y cynlluniau gwaddol a diwygiedig. Bydd aelodau'n defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn eu RSS i wneud penderfyniad IC am ba set o fuddion maen nhw'n dymuno eu dewis ar gyfer y cyfnod adfer. Mae'r rheoliadau drafft yn gwneud darpariaeth am bwy sy'n gallu gwneud penderfyniad IC a'r amserlenni ar gyfer, ac effaith, y penderfyniad hwnnw.

191. Mae'r rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer sut y bydd materion fel trosglwyddiadau, hyblygrwyddau a gorchmynion cynllun a wnaed yn ystod achosion ysgariad/diddymiad yn ymwneud â gwasanaeth adferadwy aelod yn cael eu rheoli i sicrhau bod cyfrifiadau buddion yn cymryd yr adferiad i ystyriaeth. Mae'r rheoliadau drafft hefyd yn cwmpasu meysydd fel ymddeoliad salwch, pensiynau plant mewn taliad a sut mae unrhyw ordaliadau neu dandaliadau o fuddion pensiwn a/neu gyfraniadau yn mynd i gael eu rheoli.

## Datganiadau Dewis Uniongyrchol a Gwasanaeth Adferadwy

192. O ganlyniad i adran 2(1) y Ddeddf, bydd pob aelod a effeithir o'r TPS yn cael eu hystyried i fod yn y cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod adfer. Gan y gall fod rhai aelodau wedi bod yn well eu byd yn y cynllun diwygiedig, rhoddir y cyfle iddynt ddewis derbyn buddion cynllun diwygiedig cyfatebol ar gyfer y cyfnod adfer. Bydd y dewis yn ymwneud â holl wasanaeth adferadwy'r aelod. Nid yw aelod yn gallu derbyn cyfuniad o fuddion cynlluniau gwaddol a diwygiedig am wasanaeth yn ystod y cyfnod adfer.

193. I aelodau sydd wedi ymddeol neu farw yn ystod y cyfnod adfer, bydd penderfyniad IC. Mae'r penderfyniad IC yn cael ei ddarparu trwy gyfuniad o bwerau yn y Ddeddf a'r rheoliadau drafft (gweler paragraffau 199-201am ragor o fanylion). Er mwyn i aelod wneud penderfyniad, bydd RSS yn cael ei ddarparu i'r aelod.

194. Lle mae aelod wedi marw cyn 1 Hydref 2023, bydd y penderfyniad IC yn cael ei wneud gan y gwneuthurwr penderfyniad cymwys.Mae rhagor o fanylion ar y gwneuthurwr penderfyniad cymwys yn gallu cael eu canfod ym mharagraffau 202-203 o'r ddogfen hon.

## Datganiadau Gwasanaeth Adferadwy

195. Mae angen darpariaeth ar y cynllun i ddarparu RSSau i aelodau cymwys yn unol ag adran 29 y Ddeddf a Chyfarwyddiadau Trysorlys EF.

196. Nid yw RSSau yn cael darparu ar hyn o bryd i aelodau'r TPS ac maen nhw'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r adferiad i ddarparu manylion opsiynau IC aelod cymwys.

197. Bydd y RSS yn dangos buddion aelod a gronnwyd yn ystod y cyfnod adfer wedi'u cyfrifo o dan y cynlluniau gwaddol a diwygiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod gan aelodau cymwys (neu wneuthurwyr penderfyniadau yn achos aelodau a fu farw) wybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad IC gwybodus. Bydd y RSS yn fformat tebyg i'r datganiad Buddion Blynyddol y

mae pob aelod yn ei dderbyn a bydd yn cynnwys manylion perthnasol sy'n ymwneud â phob aelod. Bydd y RSS yn darparu gwybodaeth am sut a phryd y bydd aelod yn gwneud ei benderfyniad IC.

198. Mae'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i RSS gael ei ddarparu i bob aelod cymwys o fewn 18 mis o 1 Hydref 2023 (neu'r fath ddyddiad diweddarach fel y mae rheolwr y cynllun yn ei ystyried yn rhesymol). Mae'r cyfnod hwn yn ofynnol i ganiatáu amser digonol i weinyddwr y cynllun wirio'r dewisiadau perthnasol sydd gan bob un o aelodau'r IC, a fydd mewn rhai achosion yn gofyn am gadarnhad o ddewisiadau rolio yn ôl cyn i'r RSS allu cael ei ddosbarthu.

*Mae rheoliad drafft 3 yn gymwys.*

## Gwneud penderfyniad Dewis Uniongyrchol

199. Mae darpariaethau'r IC yn y rheoliadau yn gymwys i unrhyw aelod sydd wedi ymddeol neu farw cyn 1 Hydref 2023, fodd bynnag, mae angen rhagor o reoliadau penodol i'r cynllun lle mae'r aelod wedi ymddeol yn gynamserol neu oherwydd salwch. Mae'r cynigion hyn yn cael eu hesbonio ym mharagraffau 272-275 a 267-271 o'r ddogfen ymgynghori hon.

200. Mae adran 6 y Ddeddf yn darparu y gall aelod wneud dewis am fuddion cynllun diwygiedig cyfatebol cyn diwedd y cyfnod dewis (gweler paragraff 201). Mae'r Ddeddf yn darparu ymhellach bod dewis ar gyfer cynllun diwygiedig yn dod i rym ar unwaith, fodd bynnag, lle mae aelod yn penderfynu peidio â gwneud dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig (hynny yw, mae'n penderfynu dewis buddion cynllun gwaddol), yna nid yw'r 'penderfyniad' hwnnw yn dod i rym hyd ddiwedd y cyfnod dewis. Mae'r Adran felly wedi cynnwys darpariaeth yn y rheoliadau drafft i 'Benderfyniad Dewis Uniongyrchol' gael ei wneud. Y penderfyniad hwnnw fydd fod aelod naill ai'n (i) dewis buddion cynllun diwygiedig neu (ii) nid yw'n dewis buddion cynllun diwygiedig a chyn gynted â bod hynny'n cael ei gyfathrebu i'r cynllun bydd y dewis yn dod i rym ar unwaith. Mae hyn yn

golygu lle mae aelod yn dewis (ii), bod y penderfyniad hwnnw'n gallu cael ei weithredu ar unwaith yn hytrach nac aros hyd bod y cyfnod dewis wedi dod i ben.

201. Mae'n rhaid i'r aelod (neu'r gwneuthurwr penderfyniad cymwys) wneud ei benderfyniad IC erbyn diwedd y cyfnod dewis – mae hyn un flwyddyn o'r adeg mae'r RSS yn cael ei ddosbarthu iddo, neu'r fath adeg ddiweddarach mae rheolwr y cynllun yn ei hystyried yn rhesymol. Mae hyn er mwyn caniatáu i aelodau ystyried eu hopsiynau a cheisio cyngor ariannol annibynnol os oes gofyn.

*Mae rheoliadau drafft 7 a 8 yn gymwys.*

## Penderfyniad dewis uniongyrchol i'w wneud gan wneuthurwr penderfyniad

202. Lle mae aelod wedi marw cyn 1 Hydref  2023, mae aelod o bensiynwr yn marw cyn cadarnhau ei ddewis, dosberthir RSS i wneuthurwr penderfyniad cymwys. Bydd gan y gwneuthurwr penderfyniad wedyn 12 mis i gadarnhau ei benderfyniad.

203.  Mae'r rheoliadau drafft yn cynnwys fframwaith i adnabod y categorïau gwahanol o wneuthurwyr penderfyniadau cymwys ac yn amlinellu'r amodau i'w hateb ar gyfer pob math. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y gwneuthurwr penderyniad cymwys yn oedolyn sy'n goroesi (gŵr/gwraig, partner sifil neu bartner cyd-fyw cymwys). Lle nad yw hyn yn gymwys neu mae buddiolwyr lluosog, mae'r rheoliadau yn darparu llwybr eglur i weinyddwr y cynllun i adnabod pwy ddylai fod yn wneuthurwr penderfyniad. Lle na ellir cytuno ar nac adnabod gwneuthurwr penderfyniad rheolwr y cynllun fydd  gwneuthurwr y penderfyniad.

*Mae rheoliad 7 ac Atodlen 1 o'r rheoliadau drafft yn gymwys.*

## Dewis a fernir

204. Lle nad yw'r aelod neu wneuthurwr penderfyniad yn cyfathrebu penderfyniad IC cyn diwedd y cyfnod dewis, mae'r rheoliadau drafft yn caniatáu i'r cynllun farnu bod dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig wedi cael ei wneud (o dan adran.6 y Ddeddf) lle byddai'r fath ddewis yn arwain at y gwerth ariannol uwch.

205. Mae'r Adran wedi cynnwys y ddarpariaeth hon oherwydd yn absenoldeb penderfyniad IC byddai'r holl aelodau yn cael eu barnu i fod yn y cynllun gwaddol a byddent yn cael eu talu â buddion cynllun gwaddol cyn gynted â bod y cyfnod dewis wedi gorffen. Gallai hyn arwain at rai aelodau'n derbyn gwerth is na'r hyn y gallai fod ganddynt hawl iddo.

206. Lle mae buddion cynllun diwygiedig yn cynhyrchu'r gwerth ariannol uwch, bydd y cynllun yn barnu bod dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig wedi cael ei wneud ar gyfer y cyfnod adfer. Fel arall, lle mae buddion cynllun gwaddol yn cynhyrchu'r gwerth ariannol uwch, ni fydd dewis a fernir a bydd buddion cynllun gwaddol yn cael eu talu am y gwasanaeth adferadwy.

207. Er mwyn penderfynu pa set o fuddion fyddai'n cynhyrchu'r gwerth ariannol uchaf, byddai gweinyddwr y cynllun yn defnyddio gwerth y Digwyddiad Crisialu Buddion i asesu'r Lwfans Oes (cyfeirir ato hefyd fel 'Cronfa'r Cynllun'). Cyfrifiad yw hwn sy'n cael ei gwblhau mewn prosesau 'busnes fel arfer' i bob aelod at ddibenion treth pensiynau. Gellir canfod manylion o sut mae'r gwerth hwn yn cael ei gyfrifo yn adran Lwfans Blynyddol a Lwfans Oes gwefan y TPS.

*Mae rheoliad drafft 9 yn gymwys.*

## Dewisiadau gwasanaeth wedi'i optio allan

208. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer aelodau a optiodd allan o'r TPS o'r gwahaniaethu a gafodd ei adnabod i gael ailsefydlu'r gwasanaeth hwnnw yn ystod y cyfnod adfer.

209. Mae'n rhaid i'r aelod gwblhau cais o fewn 12 mis o 1 Hydref 2023. Mae'n rhaid i'r penderfyniad i optio allan fod wedi cael ei gyfathrebu i'r cynllun ar neu ar ôl 10 Mawrth 2012. Dyma oedd y dyddiad y cafodd diwygiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus eu cyhoeddi a all fod wedi cymell rhai aelodau i optio allan o'r gwasanaeth. Er y gall penderfyniad i optio allan o'r cynllun fod cyn 1 Ebrill 2015, dim ond gwasanaeth yn ystod y cyfnod adfer sy'n gallu cael ei ailsefydlu o dan y darpariaethau hyn. Bydd angen i'r aelod ddarparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi optio allan o'r cynllun oherwydd y gwahaniaethu ac nid am reswm arall.

210. Bydd rheolwr y cynllun yn ystyried y cais a lle mae'r hawliad yn cael ei dderbyn bydd RSS yn cael ei roi i'r aelod. Byddai ganddo 12 mis wedyn i gadarnhau ei ddewis i gael ailsefydlu gwasanaeth wedi'i optio allan. Bydd y RSS yn manylu ar y cyfraniadau a fyddai wedi bod yn ddyledus gan yr aelod ar gyfer y gwasanaeth wedi'i optio allan a'r opsiynau ar gael i dalu am y cyfraniadau hynny. Lle mae'r aelod yn cadarnhau'r dymuniad hwnnw i wneud dewis i gael ailsefydlu eu gwasanaeth wedi'i optio allan, bydd wedyn yn cael ei  drin yn yr un ffordd ag aelodau cymwys eraill.

211. Os yw'r cais yn cael ei wrthod gan weinyddwr y cynllun, gallai'r aelod apelio gan ddefnyddio'r broses Gweithdrefn Datrys Anghydfod sy'n bodoli.

*Mae rheoliad  drafft 5 yn gymwys.*

## Ysgariad a Diddymiad Partneriaeth Sifil

212. Gall aelodau'r TPS fod yn ddarostyngedig i Orchymyn Rhannu Pensiwn (PSO) o ganlyniad i achos ysgariad neu ddiddymiad. Cyn i PSO allu cael ei wneud, mae'r llys yn gofyn bod yr aelod yn gofyn am amcangyfrif Gwerth Trosglwyddo Cyfatebol i Arian (CETV) o'r cynllun. Y CETV yw gwerth y buddion cronedig o ferwn pob cynllun, y mae'r llys yn ei ddefnyddio wrth gyfrifo cyfanswm gwerth yr asedau. Mae'r CETV yn cael ei gyfrifo gan y cynllun gan ddefnyddio cyfarwyddyd a ffactorau wedi'u darparu gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD). Mae rhagor o fanylion ar Orchmynion Rhannu Pensiwn yn gallu cael eu canfod yn Nhaflen Ffeithiau Ysgariad y TPS.

### Effaith yr adferiad

213. Lle mae aelod o'r cynllun y ddarostyngedig i PSO mewn perthynas â'i wasanaeth adferadwy, bydd angen i'r PSO hwnnw ystyried unrhyw effaith o'r adferiad. Mae hyn oherwydd o ganlyniad i'r adferiad, mae'n bosibl y byddai gwerth y pensiwn ar adeg yr ysgariad/diddymiad wedi bod yn wahanol pe byddai'r PDM wedi bod yn aelod o'r cynllun arall ar gyfer y cyfnod adfer. Mae hyn yn golygu er i'r ganran a ddyfynnir yn y PSO aros yr un peth, gall y swm gwirioneddol a gredydwyd i'r aelod credyd pensiwn fod wedi bod yn wahanol.

214. Bydd hyn yn effeithio ar yr Aelod Credyd pensiwn (cyn-ŵr/wraig neu bartner sifil aelod o'r cynllun – y PCM) yn ogystal â'r Aelod Debyd pensiwn (yr aelod o'r cynllun sy'n destun achos ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil – y PDM).

### PSO a gyfrifir cyn 1 Hydref 2023

## Aelod Credyd Pensiwn

215. Bydd angen i unrhyw PSO sy’n cynnwys gwasanaeth adferadwy sydd wedi cael ei gyfrifo cyn 1 Hydref 2023 gael ei ailgyfrifo. Mae hyn o ganlyniad i’r adferiad, mae’n bosibl y byddai gwerth y pensiwn ar adeg yr ysgariad/diddymiad wedi bod yn wahanol pe byddai’r PDM wedi bod yn aelod o’r cynllun arall bob amser ar gyfer y cyfnod adfer. Mae hyn yn golygu er bod y ganran a ddyfynnir yng ngorchymyn rhannu’r pensiwn yn aros yr un peth, gall y swm gwirioneddol a gredydir i’r aelod credyd pensiwn fod wedi bod yn wahanol. Lle roedd y PDM yn aelod gwarchodedig neu heb ei warchod, bydd y credyd pensiwn yn cael ei ailgyfrifo yn y cynllun arall. Os yw’r gwerth arall hwnnw’n uwch, byddai credyd ychwanegol wedi cael ei ddyfarnu i’r PCM. Lle mae gwerth y cynllun arall yn is, ni fyddai newid i werth y credyd pensiwn sy’n bodoli (i sicrhau nad yw’r PCM yn cael ei roi o dan anfantais). Bydd unrhyw gredyd ychwanegol yn cael ei dalu i mewn i’r un cynllun mae’r credyd pensiwn presennnol yn preswylio ynddo.

216. Lle roedd y PDM yn aelod gwarchodaeth lai ac felly â gwasanaeth yn y cynlluniau gwaddol a diwygiedig ar gyfer y cyfnod adfer, bydd y gwerthoedd yn cael eu hailgyfrifo mewn perthynas â’r gwasanaeth adferadwy yn bod yn gyfan gwbl yn y cynllun gwaddol ac yn gyfan gwbl yn y cynllun diwygiedig. Mae hyn oherwydd nad yw’r Ddeddf yn caniatáu i wasanaeth adferadwy fod yn y cynlluniau gwaddol a diwygiedig.

217. Gallai un gwerth neu’r ddau werth gynhyrchu swm uwch a fyddai’n cael ei ddyfarnu i’r PCM fel credyd. I’r gwrthwyneb, gallai un gwerth neu’r ddau werth gynhyrchu swm is a fyddai’n lleihau’r credyd pensiwn.

218. Lle mae pensiwn eisoes mewn taliad i’r PCM ac mae ailgyfrifo credyd yn arwain at ordaliad neu dandaliad o fuddion pensiwn, mae rheoliadau yn darparu bod rhaid i’r PCM dalu swm i’r cynllun neu mae’n rhaid i’r cynllun dalu swm i’r PCM. Byddai gan y cynllun hefyd y pŵer i ildio unrhyw symiau sy’n ddyledus gan PCM i’r cynllun. Byddai hyn yn ôl amgylchiadau unigol y PCM a’r amgylchiadau y digwyddodd gordaliad oddi tanynt.

*Mae rheoliadau drafft 18, 19 a 20 yn gymwys.*

219. O fewn 12 mis o 1 Hydref 2023, mae'n rhaid i reolwr y cynllun ddarparu datganiad i'r PCMau sy'n amlinellu unrhyw swm credyd amgen ac unrhyw addasiad credyd.

220. Os oes gan y PCM gredydau yn y ddau gynllun, bydd y swm yn cael ei gymhwyso i'r cyfrif a fyddai'n fwyaf buddiol i'r PCM. Os nad yw'r PCM am i'r credyd gael ei gymhwyso yn y fath fodd, mae'n rhaid iddo hysbysu'r gweinyddwr yn unol â'r cyfarwyddiadu o fewn y datganiad, o fewn 6 mis iddo gael ei ddosbarthu.

### Aelodau Debyd Pensiwn

221. Bydd debydau'r pensiwn yn cael eu hailgyfrifo megis ar ddyddiad prisio'r PSO, yn seiliedig ar wasanaeth adferadwy'r PDM yn y ddau gynllun. Bydd RSS yr aelod yn cyflwyno'r cyfrifiadau perthnasol gan ystyried debydau cyfrif yn y ddau gynllun. Bydd y debyd i'w gymhwyso yn seiliedig ar benderfyniad IC yr aelodau (neu unrhyw ddewis a fernir ar gyfer buddion cynllun diwygiedig).

*Mae rheoliadau drafft 18 a 21 yn gymwys.*

## PSOau a gyfrifir ar ôl 1 Hydref 2023

### Aelod Credyd Pensiwn

222. Lle mae aelod sydd wedi ymddeol wedi cadarnhau ei benderfyniad IC cyn i achos ysgariad ddechrau, bydd y CETV i'w ddarparu i'r llys yn cael ei gyfrifo yn unol â dewis yr aelod.

223. Lle nad yw aelod IC wedi gwneud ei benderfyniad eto, bydd rheolwr y cynllun yn darparu'r uchaf o'r CETVau i'r llys wedi'i gyfrifo o dan reolau gwaddol yn ogystal â diwygiedig. Bydd y credyd pensiwn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r gwerth uchaf posibl.

*Mae rheoliad drafft 23 yn gymwys.*

### Aelod Debyd Pensiwn

224. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion o’r debydau a gyfrifir o dan y cynllun gwaddol a’r cynllun diwygiedig yn RSS yr aelod. Ar ôl i’r IC gael ei gadarnhau, bydd y debyd perthnasol yn cael ei gymhwyso i gyfrif pensiwn y PDM a’i dalu’n briodol

*Mae rheoliad drafft 24 yn gymwys.*

## Trefniadau ysgariad/diddymiad heblaw am PSOau

225. Lle mae gwerth hawliau adferadwy aelod yn cael eu penderfynu ar gyfer achos ysgariad neu ddiddymiad ar ôl 1 Hydref 2023 a chyn i benderfyniad IC fod wedi cael ei gadarnhau, gwerth yr hawliau fydd y mwyaf o wasanaeth cynllun gwaddol neu ddiwygiedig.

*Mae rheoliad drafft 25 yn gymwys.*

# Hyblygrwyddau Cynllun

226. O dan reolau presennol, mae aelodau yn gallu dewis cynyddu buddion eu cynllun trwy brynu hyblygrwyddau cynllun. Mae Budd Pensiwn

Ychwanegol (APB) ar gael yn y ddau gynllun, tra bod Cronni Cyflymach a Phrynu Allan ar gael yn y cynllun diwygiedig yn unig.

227. Mae'n rhaid i APB gael ei brynu mewn unedau llawn o £250 y flwyddyn a gellir eu talu gan un cyfandaliad untro neu drwy ddidyniadau misol o gyflog yr aelod yn unol â'i oedran a'i gynllun cymwys. Mae unrhyw APB a brynir yn cael ei dalu pan fydd yr aelod yn cymryd ei fuddion cynllun ymddeol safonol ac mae'n cael ei addasu'n actiwaraidd fel y bo'n gymwys. Megis yn achos buddion prif gynllun, gall yr aelod ddewis trosi rhan o'i APB blynyddol i gyfandaliad untro.

228. Mae aelodau'r cynllun diwygiedig yn gallu dewis 'Prynu Allan' y gostyngiad actiwaraidd sy'n gymwys i fuddion pensiwn wrth ymddeol cyn NPA. Mae aelodau'n gallu gwneud dewis Prynu Allan yn chwe mis cyntaf bod i mewn yn y cynllun hwnnw'n unig. Mae'n rhaid i gyfraniadau wedyn gael eu talu wrth i wasanaeth gael ei gronni trwy gydol gyrfa'r aelod, neu hyd bod y dewis yn cael ei ddiddymu.

229. Mae aelodau'r cynllun diwygiedig hefyd yn gallu dewis talu cyfraniadau uwch i gynyddu cyfradd gronni eu pensiwn ar gyfer blwyddyn cynllun benodol (1 Ebrill – 31 Mawrth), sy'n cael ei adnabod fel Cronni Cyflymach. Mae aelodau'n gallu gwella'r gyfradd gronni safonol o 1/57 o enillion pensiynadwy i 1/55, 1/50 neu 1/45.

230. Mae'r holl hyblygrwyddau yn cael eu cyfrifo yn unol â ffactorau a chyfarwyddyd a ddarperir gan y GAD. Mae rhagor o fanylion ar hyblygrwyddau cynllun yn gallu cael eu canfod yn y Daflen ffeithiau Hyblygrwyddau Cynllun.

## Effaith yr adferiad

231. Mae rhai aelodau wedi prynu hyblygrwyddau yn y cynllun diwygiedig yn ystod y cyfnod adfer ond yn dilyn rolio yn ôl (ac yn unol ag adran 2(1) y

Ddeddf) byddant yn cael eu trin fel pe byddent yn aelodau o'r cynllun gwaddol erioed. Mae'n rhaid i unrhyw ddewisiadau cynllun diwygiedig felly gael eu rheoli.

232. Mae'r ddeddf yn diddymu'r hawliau sy'n codi o hyblygrwyddau cynllun diwygiedig a gymerir allan yn ystod y cyfnod adfer ac mae'r rheoliadau drafft yn darparu i aelodau gael cynnig hawliau amgen yn y cynllun gwaddol neu iawndal am y cyfraniadau aelod ychwanegol hynny a gafodd eu gwneud.

233. O 1 Hydref 2023 bydd gweinyddwr y cynllun yn dechrau cysylltu ag aelodau â hyblygrwyddau cynllun diwygiedig a gymerwyd allan yn ystod y cyfnod adfer i ddarparu gwybodaeth ynghylch eu hopsiynau a'u hawliau amgen sydd ar gael yn y cynllun gwaddol.

234. Bydd yr hysbysiad yn darparu manylion am sut mae'r aelod yn gallu gwneud dewis mewn perthynas â'i hyblygrwyddau cynllun diwygiedig, effeithiau ei benderfyniad ar ei opsiynau IC a'r cyfnod o amser y mae'n rhaid gwneud dewis ynddo. Bydd yr aelod yn cael ei hysbysu wedyn lle nad oes dewis yn cael ei wneud cyn diwedd y cyfnod dewis, bydd y cynllun yn gweithredu dewis diofyn a bod y dewis yn ddiwrthdro.

235. Yr opsiynau fydd yn cael eu darparu i aelodau mewn perthynas â'u hyblygrwyddau cynllun diwygiedig yw: -

a) cynnal eu dewis hyblygrwydd: cadw'r taliadau o fewn y cynllun. Bydd y rhain yn cael eu hailadeiladu fel cynllun gwaddol (APB); neu

b) ganslo'r dewis hyblygrwydd a derbyn taliad iawndal ar unwaith ar gyfer y cyfraniadau a dalwyd.

236. Lle mae aelod yn dewis opsiwn (a), bydd cyfraniadau a dalwyd yn cael eu hailadeiladu i APB a brynwyd yn y cynllun gwaddol. Lle mae aelod yn dewis buddion cynllun diwygiedig fel eu penderfyniad IC, bydd yr hawliau yn amrywiol i ddarparu'r budd hyblygrwydd cynllun diwygiedig cyfatebol fel y cymerwyd allan yn wreiddiol.

237. Lle mae aelod yn dewis opsiwn (b), bydd y dewis yn cael ei ddiddymu'n llwyr a bydd yn derbyn iawndal cyfatebol i'r cyfraniadau a dalwyd i'r cynllun (a llog). Ni fyddai budd ar gyfer yr hyblygrwydd hwn yn cael ei gynnwys yn y naill na'r llall o'r opsiynau IC.

238. Lle nad yw aelod yn cyfathrebu ei ddewis i'r cynllun erbyn diwedd y 6 mis o gyhoeddi'r hysbysiad, bydd diffygdaliad yn cael ei gymwyso i'r cynllun i hyblygrwyddau cynllun diwygiedig gael eu hailadeiladu i mewn i APB cynllun gwaddol (opsiwn a). Mae hyn yn sicrhau bod y cyfraniadau ychwanegol a dalwyd gan yr aelod i'r cynllun yn darparu budd cyfatebol ychwanegol ac mae'n diogelu'r dewis hyblygrwydd gwreiddiol os yw buddion cynllun diwygiedig yn cael eu dewis.

239. Bydd unrhyw ddewis (neu ddewis a fernir) mewn perthynas â hyblygrwyddau cynllun diwygiedig yn cael eu cynnwys yng nghyfrifiadau buddion yr aelod a'u cyflwyno yn ei RSS.

*Mae Rheoliadau Drafft 27 a 28 yn gymwys.*

## Aelodau sy'n dewis buddion cynllun diwygiedig yn IC

240. Lle mae aelod yn dewis buddion cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod adfer ac ni ddewisodd ad-daliad ar unwaith (opsiwn b) wrth rolio yn ôl, byddai'n derbyn buddion cyfatebol i'r rheini y byddai wedi eu derbyn pe na byddai ei fuddion cynllun diwygiedig wedi cael eu diddymu.

241. Mae hyn yn golygu i bob pwrpas lle mae aelod yn dewis cael ailadeiladu ei fuddion cynllun diwygiedig i APB cynllun gwaddol (opsiwn a) bydd ei fuddion gwasanaeth adferadwy cynllun diwygiedig cyfatebol yn cynnwys gwerth unrhyw hyblygrwyddau cynllun diwygiedig.

242. Lle prynodd aelod APB cynllun gwaddol yn ystod y cyfnod adfer ac mae'n dewis buddion cynllun diwygiedig pan mae'n gwneud ei IC, bydd ganddo'r opsiynau canlynol: -

   (a) ailadeiladu APB cynllun gwaddol i APB cynllun diwygiedig cyfatebol; neu

(b) ganslo'r dewis APB gwreiddiol a derbyn taliad iawndal ar unwaith am y cyfraniadau a dalwyd.

243. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu dangos yn RSS yr aelod.

*Mae rheoliadau drafft 31 i 33 yn gymwys.*

## Darpariaeth i aelodau dalu cyfraniadau gwirfoddol i'r cynllun gwaddol

244. Mae'r rheoliadau drafft hefyd yn gwneud darpariaeth i aelodau cymwys â gwasanaeth adferadwy i brynu APB cynllun gwaddol yn ôl-syllol ar gyfer y cyfnod adfer.

245. Mae'n rhaid i'r aelod fod wedi ymddeol (nid yw'r darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas ag aelodau sydd wedi marw) a bydd angen iddynt fodloni rheolwr y cynllun y byddai wedi mynd i mewn i drefniant i brynu APB cynllun gwaddol pe byddent wedi bod yn y cynllun hwnnw ar y pryd. Mae'n rhaid i'r cais gael ei gwblhau o fewn 12 mis o 1 Hydref 2023 ac mae rheoliadau drafft yn gofyn i aelodau gyflwyno cais o fewn 6 mis. Mae hyn er mwyn caniatáu amser digonol i ystyried y cais ac i gytuno â gweithredu trefniadau talu angenrheidiol.

*Mae rheoliad drafft 41 yn gymwys.*

246. Oherwydd cymhwyso rheoliadau treth ar wasanaeth adferadwy aelod gall fod yn angenrheidiol i ystyried rheoliadau drafft ychwanegol mewn perthynas â hyblygrwyddau cynllun. Ni fyddai unrhyw newidiadau yn newid yr ymagwedd bolisi a gynigir ond bydd yn sicrhau mynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau treth sy'n deillio.

## **Trosglwyddiadau**

247. Wrth ymuno â'r TPS, gall aelodau ddymuno trosglwyddo'u pensiwn o'u cyflogaeth flaenorol i'r TPS, neu i'r gwrthwyneb, pan fydd aelod yn gadael

y TPS, gall ddymuno trosglwyddo'i bensiwn i gynllun pensiwn budd diffiniedig arall. Mae tri dull o drosglwyddo i mewn ac allan o'r TPS: trosglwyddiad clwb, trosglwyddiad CETV a throsglwyddiad swp. Mae rhagor o fanylion ar drosglwyddiadau yn gallu cael eu canfod ar [wefan y TPS.]

### Trosglwyddiad clwb

248. Mae'r TPS yn rhan o'r Clwb Trosglwyddo Sector Cyhoeddus (y Clwb) sy'n hwyluso'r symudiad o hawliau pensiwn yn y sector cyhoeddus. Mae'r Clwb yn galluogi aelodau i drosglwyddo rhwng cynlluniau sy'n cymryd rhan ar y sail y bydd yr aelod yn derbyn buddion o werth cyfatebol yn y cynllun sy'n derbyn.

### Trosglwyddiad CETV (gan gynnwys trosglwyddiad nad yw'n un clwb)

249. Gall trosglwyddiad ddigwydd i mewn neu allan o'r TPS lle:

a. mae unigolyn yn ymuno â'r TPS o gynllun heb fod yn un Clwb.
b. mae aelod yn newid cyflogaeth ac nid yw cynllun ei gyflogwr newydd yn cael ei gwmpasu gan y Clwb.
c. nad yw trosglwyddiad clwb yn bosibl (e.e. nid yw meini prawf y trosglwyddiad clwb wedi cael eu hateb).

250. Trosglwyddiad CETV yw trosglwyddiad o bensiwn yr aelod yn seiliedig ar werth cyfrifedig ei fuddion cronedig. Mae'r gwerth trosglwyddo yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau a chyfarwyddyd a ddarperir gan GAD, a CETV ar wahân yn cael ei gyfrifo ar gyfer croniad cyflog terfynol a chroniad gyrfa ar gyfartaledd, yn ogystal ag ar gyfer unrhyw hyblygrwyddau a brynwyd. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu cyfuno i gynhyrchu CETV cyfan, sy'n cael ei ddefnyddio gan y cynllun sy'n derbyn i gyfrifo buddion yn y cynllun hwnnw.

### Trosglwyddiad swp

251. Yn achos trosglwyddiad gorfodol o aelodau o un cyflogwr i un arall, sy'n cynnig math gwahanol o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus budd diffiniedig, neu gynllun bras gymharol, gall trosglwyddiad swp ddigwydd.

252. Gellir canfod rhagor o fanylion ar drosglwyddiadau ar wefan y TPS.

## Effaith yr adferiad

253. Mae darpariaethau yn ofynnol mewn perthynas â throsglwyddiadau i mewn ac allan o'r TPS sy'n cynnwys gwasanaeth adferadwy. Mae rheoliadau drafft wedi cael eu paratoi, pan fydd gwerthoedd trosglwyddo yn cael eu cyfrifo, fod aelodau a gwasanaeth adferadwy yn dewis defnyddio buddion cynllun diwygiedig neu fuddion cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod adfer.

## Trosglwyddiadau a gwblheir cyn 1 Hydref 2023

254. Bydd ailymweld â phob trosglwyddiad sy'n cynnwys gwasanaeth adferadwy a gwblheir cyn 1 Hydref 2023 fel rhan o'r adferiad. Mae hyn er mwyn darparu eu penderfyniad IC i aelodau sy'n cynnwys gwasanaeth adferadwy a drosglwyddwyd.

### Datganiad Gwasanaeth Adferadwy ar gyfer gwasanaeth wedi'i drosglwyddo allan

255. Lle trosglwyddodd aelod hawliau gwasanaeth adferadwy allan o'r TPS, bydd rheolwr y cynllun yn darparu RSS. Bydd y datganiad hwn yn manylu ar: -

1. werth unrhyw hawliau ychwanegol ynghylch gwasanaeth adferadwy y byddai gan yr aelod hawl iddynt yn union cyn y trosglwyddiad o ganlyniad i rolio yn ôl.
2. yr opsiynau (os o gwbl) sydd ar gael mewn perthynas a'r driniaeth o'r hawliau ychwanegol hynny, a
3. lle mae unrhyw opsiynau o'r fath, yr amgylchiadau, a'r broses y gall opsiwn gael ei ddewis ynddynt a thrwyddi.

*Mae rheoliad drafft 43 yn gymwys.*

### Trosglwyddiadau CETV (gan gynnwys trosglwyddiadau Clwb heb fod ar sail Clwb)

256. Lle trosglwyddodd aelod allan o'r TPS cyn 1 Hydref 2023, ni fydd y CETV a gyfrifwyd ac a ddarparwyd i'r cynllun sy'n derbyn wedi cynnwys gwybodaeth perthynol i'r adferiad. Pan ddaw rheoliadau i rym ar 1 Hydref 2023, bydd gweinyddwr y cynllun yn cychwyn gweithgaredd cywiro a bydd yn ailymweld â phob cyfrifiad CETV adferadwy i gymryd gwasanaeth adferadwy'r aelod i ystyriaeth.

257. Mae rheoliadau drafft yn darparu y bydd y cynllun yn cyfrifo gwerth trosglwyddo gwasanaeth adferadwy'r aelod o dan y cynllun gwaddol yn ogystal â'r cynllun diwygiedig a bydd yn talu'r gwerth uwch i'r cynllun sy'n derbyn lle'n bosibl. Lle nad yw'r gwerth yn gallu cael ei dalu i'r cynllun, er enghraifft os nad yw'r cynllun arall yn bodoli mwyach, bydd yr aelod yn derbyn iawndal sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth mewn symiau.

258. Bydd manylion o sut i hawlio iawndal mewn perthynas â gwasanaeth wedi'i drosglwyddo allan yn cael eu cynnwys yn RSS yr aelod.

*Mae rheoliad drafft 44 yn gymwys.*

259. Lle trosglwyddodd aelod i mewn i'r TPS o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a gafodd ei effeithio ar sail heb fod yn un Clwb cyn 1 Hydref 2023, ni fydd y CETV a ddarparwyd i'r TPS wedi ystyried yr adferiad. Gan fod y gwasanaeth trosglwyddedig hwn yn gyfnod o wasanaeth adferadwy, bydd y TPS yn cael ei ddarparu â'r CETV uwch o'r cynllun anfon a byddai hyn yn cael ei ddal gan y TPS i'w gynnwys mewn cyfrifiadau o dan reolau cynlluniau gwaddol a diwygiedig, i'w gweithredu pan fydd yr aelod yn gwneud ei benderfyniad IC.

*Mae rheoliad drafft 45 yn gymwys.*

### Trosglwyddiadau Clwb a gwblheir cyn 1 Hydref 2023

260. Lle trosglwyddodd aelod wasanaeth adferadwy i mewn i neu allan o'r TPS a chynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall ar sail Clwb cyn 1 Hydref 2023, bydd yn parhau i dderbyn dewis o dderbyn  buddion cynllun naill ai waddol neu ddiwygiedig yn y cynllun sy'n derbyn.

261. Pan drosglwyddodd aelod allan o’r TPS ar sail Clwb cyn 1 Hydref 2023, bydd y gwerth trosglwyddo wedi cael ei seilio ar groniad yr aelod yn ystod y cyfnod adfer cyn gweithredu’r adferiad. Pan ddaw rheoliadau i rym ar 1 Hydref 2023, ailymwelir â gwerthoedd trosglwyddo i ystyried gwasanaeth adferadwy’r aelod.

262. Mae’r rheoliadau drafft yn darparu y bydd y cynllun yn cyfrifo gwerth trosglwyddo gwasanaeth adferadwy’r aelod o dan y cynlluniau gwaddol a diwygiedig, yn unol â rheolau trosglwyddo Clwb. Bydd y TPS yn darparu’r ddau werth i’r cynllun sy’n derbyn, i gael eu cynnwys yn RSS yr aelod i ffurfio ei benderfyniad IC.

*Mae rheoliad 48 yn gymwys.*

263. Lle trosglwyddodd aelod i mewn i’r TPS ar sail clwb cyn 1 Hydref 2023, bydd y cynllun anfon wedi darparu gwerth trosglwyddo i’r TPS yn seiliedig ar groniad yr aelod yn ystod y cyfniod adfer. Bydd y cynllun anfon yn ailymweld â’r gwerth trosglwyddo gan gyfrifo’r gwerth o dan y ddau gynllun. Bydd y TPS yn cymhwyso’r gwerthoedd hynny wrth gyfrifo opsiynau IC yr aelod.

*Mae rheoliad drafft 49 yn gymwys.*

## Pensiynau Plant mewn Taliad

264. Mae rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwarchod yn swm o bensiwn mewn taliad i blentyn cymwys aelod sydd wedi marw. Mae’r rheoliadau yn darparu lle nad yw’r oedolyn sy’n goroesi yn byw ar yr un aelwyd â phlentyn cymwys a’i fod yn gwneud penderfyniad IC a fyddai’n arwain at ostyngiad i bensiwn y plentyn hwnnw mewn taliad, ni fydd gordaliad yn cael ei greu parthed y buddion hynny a dalwyd eisoes. Ni fydd taliad y pensiwn yn cael ei leihau chwaith.

265. Os yw'r oedolyn sy'n goroesi yn gwneud penderfyniad sy'n cynyddu cyfradd pensiwn plentyn cymwys, yna bydd unrhyw dandaliad o fuddion pensiwn yn cael ei dalu i'r plentyn gan y cynllun.

266. Mae'r ddarpariaeth hon wedi cael ei chynnwys i sicrhau nad yw plant aelodau sydd wedi marw yn cael eu rhoi o dan anfantais ariannol gan y dewis a wnaed gan oedolyn sydd ddim yn byw ar yr un aelwyd ac i gyfrif am ddiffyg rheolaeth eu rhiant neu warcheidwad dros y penderfyniad sy'n effeithio ar daliad pensiwn y plentyn. Lle mae pensiwn plentyn mewn taliad i blentyn sy'n byw ar yr un aelwyd â'r oedolyn sy'n goroesi, disgwylir y byddai'r penderfyniad IC yn ystyried pob gwybodaeth sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau.

*Mae rheoliad drafft 59 yn gymmwys.*

## Ymddeoliad Salwch

267. Mae'r rheolau TPS yn caniatáu i aelodau sy'n rhy sâl i barhau i weithio ymgeisio am ymddeoliad salwch. Ar yr amod fod yr aelod wedi cymhwyso ar gyfer buddion ymddeoliad, mae aelodau'n gallu ymgeisio am ymddeoliad salwch ar unrhyw adeg cyn iddynt gyrraedd NPA eu cynllun. I fod yn gymwys ar gyfer ymddeoliad salwch, mae'n rhaid i aelod mewn gwasanaeth ateb meini prawf naill ai Haen 1 neu Haen 2, neu lle mae'r aelod allan o wasanaeth, mae'n rhaid i feini prawf Haen 2 gael eu bodloni er mwyn i fuddion Haen 1 gael eu talu. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ymddeoliad salwch ar [wefan y TPS.]

## Effaith yr adferiad

268. Lle yr ymgeisiodd aelod am ymddeoliad salwch yn ystod y cyfnod adfer gall y cais hwnnw fod wedi (i) cael ei dderbyn ac mae'r aelod wedi derbyn buddion salwch ymddeoliad neu (ii) wedi cael ei wrthod ac mae'r aelod wedi ymddeol o dan ddarpariaethau amgen (e.e. ymddeoliad cynnar). Gall yr aelodau hyn fod wedi bod yn gymwys ar gyfer salwch ymddeoliad yn y cynllun amgen pe byddent wedi gallu ymgeisio i'r cynllun hwnnw ar y pryd. Felly, yn unol ag ymagwedd yr adferiad i ddileu'r gwahaniaethu a darparu dewis i aelodau cymwys, mae'r rheoliadau draft yn gwneud darpariaeth i'r aelodau hynny gael eu hailasesu yn erbyn meini prawf ymddeoliad salwch y cynllun amgen (oedd yn gymwys ar yr adeg y gwnaethant eu cais salwch yn y cyfnod adfer). Mae manylion y cynigion a'r rheoliadau drafft perthnasol yn cael eu hamlinellu isod.

## Penderfynu a yw aelod yn ateb y meini prawf ym mhob cynllun

269. Lle mae aelod wedi ymgeisio am ymddeoliad salwch mewn perthynas â'i wasanaeth adferadwy ac mae'r cais hwnnw wedi cael ei benderfynu'n derfynol cyn 1 Hydref 2023, mae'n rhaid i'r cynllun ailasesu'r aelod yn erbyn meini prawf salwch y cynllun amgen.

270. Bydd aelodau IC a ymddeolodd o dan ddarpariaethau salwch yn ystod y cyfnod adfer yn cael eu hailasesu yn erbyn meini prawf y cynllun amgen. Bydd canlyniad yr ailasesiad ac unrhyw fuddion ymddeoliad salwch ar gael yn cael eu cyflwyno i'r aelod yn ei RSS. Lle mae aelod wedi derbyn buddion ymddeoliad salwch eisoes, nid yw'r ailasesiad yn edrych ar y dyfarniad presennol ac felly ni fyddai'n arwain at fuddion yn cael eu lleihau. Mae'r ailasesiad er mwyn asesu a allai'r aelod fod â hawl i lefel uwch o fuddion ymddeoliad salwch yn y cynllun amgen.

271. Gall fod aelodau IC hefyd a gafodd eu gwrthod am ymddeoliad salwch a gymerodd ffurf amgen o fuddion ymddeoliad wedyn (e.e. ymddeoliad cynnar. Bydd yr aelodau hyn hefyd yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf salwch yn y cynllun amgen a bydd canlyniad hyn (ac unrhyw fuddion

ymddeoliad salwch y gall yr aelod fod â hawl iddynt) yn cael ei ddangos yn RSS yr aelod.

*Mae rheoliadau drafft 61 a 62 yn gymwys.*

## Ymddeoliad Cynamserol

272. Mae Ymddeoliad Cynamserol yn ffurf o iawndal y gall cyflogwr aelod TPS ei wneud mewn amgylchiadau penodol pan fydd cyflogaeth yn cael ei therfynu oherwydd diswyddo neu er budd cyflawni gweithrediadau'r cyflogwr yn effeithlon. Mae dwy ffurf o iawndal Ymddeoliad Cynamserol sy'n adlewyrchu lle mae cyflogai yn peidio â gweithio cyn ei Oedran Pensiwn Gwladol, mae ei fuddion pensiwn cronedig yn cael ei lleihau os yn cael eu rhoi i mewn i daliad (gan eu bod yn cael eu talu am gyfnod hwy) ac nid yw'r aelod yn gallu cronni rhagor o fuddion pensiwn. Gall iawndal Ymddeoliad Cynamserol fod wedi cael ei dalu mewn perthynas â phensiwn TPS gostyngol.

273. Nid yw Ymddeoliad Cynamserol yn fudd cynllun – nid yw cyfraniadau TPS cyflogwr ac aelod yn talu am iawndal Ymddeoliad Cynamserol, mae'n cael

ei gyllido'n llwyr gan y cyflogwr ac mae'n daliad ar wahân y tu allan i'r TPS. Gall y cyflogwr dalu ffi gweinyddu i'r TPS i weinyddu taliad y iawndal, ochr yn ochr â phensiwn yr aelod, ar ei ran.

274. Mae aelodau sydd wedi derbyn Ymddeoliad Cynamserol yn ystod y cyfnod adfer ac sydd â gwasanaeth adferadwy yn aelodau pensiwn a byddai ganddynt felly hawl i wneud penderfyniad IC.

275. Lle cafodd Ymddeoliad Cynamserol ei ddyfarnu i aelod IC yn ystod y cyfnod adfer, ni fydd ei gyfrifiadau buddion o dan reolau'r cynlluniau gwaddol a diwygiedig yn cynnwys unrhyw symiau o iawndal Ymddeoliad Cynamserol. Nid oes darpariaeth i gynyddu na lleihau dyfarniad o Ymddeoliad Cynamserol cysylltiedig â dewis yr aelod o fuddion pensiwn ar gyfer y cyfnod adfer beth bynnag y bo'r dewis buddion a wneir gan yr aelod.

*Mae rheoliad drafft 64 yn gymwys.*

## Dyledion a Thaliad

276. O ganlyniad i'r adferiad a phenderfyniadau penodol a wneir gan aelodau, mae'n bosibl fod gordaliadau neu dandaliadau o fuddion a/neu gyfraniadau pensiwn yn deillio. Disgwylir yn y rhan fwyaf o achosion, y bydd y cynllun mewn dyled i'r aelod. Mewn achosion lle mae'r aelod mewn dyled i'r cynllun, byddai hyn yn bennaf o ganlyniad i opsiwn y mae wedi'i ddewis.

277. Gall fod sefyllfaoedd hefyd lle mae aelod yn ceisio iawndal gan y cynllun o ganlyniad i'r gwahaniaethu neu gymhwyso'r adferiad (paragraffau 283-290).

278. Bydd unrhyw symiau sy'n ddyledus i neu gan aelod yn cael eu dangos yn eglur yn RSS yr aelod gan gynnwys manylion o sut y cafodd y symiau hyn eu cyfrifo ac unrhyw log sy'n gymwys. Bydd y RSS hefyd yn manylu sut a phryd y byddai symiau sy'n ddyledus iddynt gan y cynllun yn cael eu talu a

beth sy’n ofynnol i’r aelod ei wneud er mwyn ad-dalu symiau sy’n ddyledus i’r cynllun.

*Mae rheoliadau drafft 74 a 75 yn gymwys.*

## Debydu

279. Lle mae symiau yn ddyledus i aelod gan y cynllun ac mae symiau yn ddyledus i’r cynllun gan yr aelod, bydd y symiau hyn yn cael eu haddasu gan symiau treth perthnasol ac wedyn yn cael eu debydu i gyfrifo dyled derfynol.

280. Mae angen addasiadau ar gyfer treth oherwydd lle mae aelod wedi gordalu symiau i’r cynllun, byddant wedi derbyn gormod o ryddhad treth pensiwn ar y taliadau hyn. Bydd rheolwr y cynllun felly’n talu iawndal i adlewyrchu’r symiau a ordalwyd, llai’r swm perthnasol i adlewyrchu’r rhyddhad treth gormodol a dderbyniwyd. Mae hyn yn ofyniad o’r Ddeddf.

*Mae rheoliadau drafft 69 a 70 yn gwmwys.*

## Llog

281. Bydd llog yn cael ei gymhwyso i’r holl symiau sy’n ddyledus, naill ai’n ddyledus i aelod gan y cynllun neu i’r cynllun gan aelod. Mae cyfarwyddiadau Trysorlys EF yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â’r cyfraddau llog sy’n gymwys lle mae dyledion penodol yn codi ac mae’n rhaid i log ar symiau sy’n ddyledus i a chan y cynllun gael eu cyfrifo yn unol â’r cyfarwyddiadau hynny. Mae sawl rheswm pam mae’n rhaid i log gael ei gymhwyso i daliadau, ond yn bennaf mae gofyniad i adlewyrchu mor agos â phosibl y sefyllfa y gall yr aelod fod wedi bod ynddi fel arall. Yn gyffredinol, lle mae symiau yn ddyledus i aelod mae graddfa’r llog yn uwch na’r raddfa llog a gymhwysir i symiau sy’n ddyledus i’r cynllun.

282. Mae rhagor o wybodaeth am gyfarwyddiadau Trysorlys EF a’r sail resymegol dros yr ymagwedd i gymhwyso llog yn gallu cael eu canfod ar [WWW.GOV.UK.](http://www.gov.uk)

*Mae rheoliad drafft 66 yn gymwys.*

## Iawndal Anuniongyrchol

283. Mae cyfraniadau a wneir gan aelodau yn ddarostyngedig i ryddhad treth gan fod y TPS yn gynllun pensiwn cofrestredig o dan Adran 4 Deddf Cyllid 2004. Mae terfynau mewn grym ynghylch y swm o groniad pensiwn y mae aelod yn gallu ei adeiladu mewn blwyddyn ariannol, sy'n cael ei adnabod fel y Lwfans Blynyddol (AA), a thros oes, yn adnabyddus fel Lwfans Oes (LTA).

284. Lle mae cost treth yn codi o ganlyniad i'r aelod yn mynd y tu hwnt i'w derfyn AA neu LTA, mae'r cynllun yn gallu talu'r gost treth ac mae buddion ymddeoliad yr aelod yn cael eu lleihau i adlewyrchu swm y gost.

285. Lle mae pensiynwr neu aelod sydd wedi marw yn gwneud penderfyniad IC ar gyfer buddion cynllun amgen sy'n newid ei groniad yn ôl-syllol yn ystod y cyfnod adfer, gall hyn effeithio ar asesiad AA neu LTA yr aelod, gan arwain at yr aelod yn gorfod talu gormod o dreth neu ddim digon o dreth.

286. Gall rhai o'r symiau gordaledig hyn fod wedi codi mewn blwyddyn dreth y tu allan i gwmpas ac felly ni fyddant yn ad-daladwy o dan adran 23 y Ddeddf.

287. Lle yr aeth yr aelod i mewn i gytundeb lle talodd y cynllun y gost treth ac oherwydd yr adferiad mae wedi gordalu treth yn awr sy'n ymwneud â blwyddyn y tu allan i gwmpas, mae rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer y buddion a gafodd eu lleihau o dan y trefniant Cynllun yn Talu i gael eu hailsefydlu lle mae swm cyfatebol o hawl i iawndal. Byddai angen i'r aelod wneud cais am iawndal anuniongyrchol a darparu gwybodaeth fel y gellir gofyn amdani gan reolwr y cynllun.

*Mae rheoliadau drafft 67 a 68 yn gymwys.*

## Iawndal

288. Mae darpariaethau yn y Ddeddf yn caniatáu i gynlluniau dalu iawndal i aelodau am golledion ariannol uniongyrchol sydd wedi codi o ganlyniad i'r gwahaniaethu a gafodd ei adnabod neu gymhwysiad yr adferiad. Felly, mae rheoliadau drafft yn caniatáu i aelodau a effeithir wneud cais am y fath iawndal.

289. Byddai cais am iawndal yn cael ei gychwyn gan yr aelod ac mae'n rhaid i'r aelod ddarparu tystiolaeth o'i golled ariannol a bod hyn yn ganlyniad o'r gwahaniaethu neu adferiad. Mae'n rhaid i unrhyw iawndal a delir gael ei bennu yn unol â'r Ddeddf a chyfarwyddiadau cysylltiedig y Trysorlys.

290. Bydd gwefan y TPS yn darparu gwybodaeth ynghylch sut mae aelod yn gallu gwneud cais am iawndal a chyrchu'r ffurflen gais berthnasol. Nid yw'r ffurflen gais yn ofynnol i aelodau dderbyn eu dewis o fuddion ar gyfer y cyfnod adfer. Bydd gweinyddwr y cynllun yn cysylltu â phob aelod a effeithir dros gyfnod yn dechrau 1 Hydref 2023 ynglŷn â'u RSS a manylion o sut i wneud eu dewis.

*Mae rheoliad drafft 68 yn gymwys.*

## Opsiwn i leihau neu ildio symiau sy'n ddyledus i'r cynllun

291. Lle mae  swm yn ddyledus gan aelod i'r cynllun o ganlyniad i'w benderfyniad IC, dylai'r swm hwnnw gael ei dalu'n llawn. Gall y cynllun ystyried lleihau neu ildio'r ddyled mewn senarios cyfyngedig, gan roi ystyriaeth benodol i amgylchiadau'r aelod. Gallai enghraifft fod yn aelod gwarchodaeth wedi'i lleihau lle byddai'r ddau ddewis (holl wasanaeth cyfnod adfer yn y cynllun gwaddol neu holl wasanaeth cyfnod adfer yn y cynllun diwygiedig) yn arwain at ordaliad o fuddion a byddai hynny'n achosi caledi ariannol iddynt.

*Mae rheoliad drafft 72 yn gymwys.*

## Symiau sy'n ddyledus gan yr aelod

292. Lle mae swm yn ddyledus gan aelod i'r cynllun, bydd y gweinyddwr yn anfon hysbysiad ysgrifenedig sy'n rhoi gwybod i'r aelod am y ddyled. Bydd hi'n ofynnol i'r aelod dalu'r swm cyn diwedd 6 mis gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i'r aelod dderbyn yr hysbysiad. Trwy gytundeb, gall y ddyled gael ei thalu'n llawn, trwy randaliadau, neu gan ddidyniad o fuddion yr aelod. Pe byddai'r aelod yn methu â thalu unrhyw swm trwy gyfandaliad neu gynllun rhandaliadau, gall y cynllun bennu bod symiau i gael eu didynnu o fuddion yr aelod.

*Mae rheoliad drafft 74 yn gymwys.*

## Symiau sy'n ddyledus gan y cynllun

293. Bydd y cynllun yn talu unrhyw ddyled sy'n ddyledus i'r aelod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Cyn i swm allu cael ei dalu, gall y cynllun ofyn i'r aelod ddarparu gwybodaeth benodol - er enghraifft, manylion banc perthnasol.

*Mae rheoliad drafft 75 yn gymwys.*

# Effeithiau'r adferiad sydd ddim yn gofyn am reoliadau

294. Mae nifer o agweddau o'r adferiad sydd ddim yn gofyn am reoliadau newydd, fodd bynnag bydd effeithiau o hyd y bydd angen eu hesbonio i aelodau a chyflogwyr cynllun. Mae'r rhain fel a ganlyn.

## Lleihad

295. Bydd rheolau cynllun presennol ar leihad yn parhau i fod yn gymwys i sicrhau triniaeth gyson o bob aelod. Oherwydd cymhwysiad yr adferiad (hynny yw, rolio gwasanaeth cynllun diwygiedig yn ôl i'r cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod adfer), bydd aelodau â gwasanaeth cynllun diwygiedig aeth yn ôl i mewn i gyflogaeth ar ôl ymddeol yn ddarostyngedig i reolau lleihau.

296. Gall unrhyw aelod sydd wedi derbyn buddion cyfnod adfer ac wedi dychwelyd i gyflogaeth cyn i'r adferiad gael ei weithredu weld ei bensiwn

mewn taliad yn cael ei addasu'n ôl-syllol yn seiliedig ar ei ddewis IC. Lle nad yw'r aelod yn gwneud penderfyniad dewis ar unwaith i:

a. dderbyn buddion gwaddol – bydd buddion cyfnod adfer yn ddarostyngedig i leihad; neu
b. dderbyn buddion cynllun diwygiedig – ni fydd buddion cyfnod adfer yn ddarostyngedig i leihad (gan o dan reolau cynllun presennol, dim ond pensiwn cyflog terfynol sy'n gallu cael ei leihau). Bydd unrhyw fuddion cynllun cyn adferiad yn parhau i fod yn ddarostyngedig i reolau lleihau.

297. Gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol a'u penderfyniad IC, gall rhai aelodau weld addasiad i'w pensiwn mewn taliad. Bydd unrhyw ordaliad neu dandaliad o fuddion pensiwn o ganlyniad yn cael eu hadennill gan y cynllun neu'n cael eu talu i'r aelod. Bydd aelodau'n parhau i dderbyn eu taliadau buddion presennol hyd bod eu penderfyniad IC yn cael ei gadarnhau.

298. I'r aelodau hynny sydd wedi ymddeol eisoes ac wedi mynd yn ôl i mewn i gyflogaeth, bydd eu RSS yn amlinellu sut y gallai eu penderfyniad effeithio ar y cyfrifiad lleihau o dan y ddau gynllun.

299. I aelodau sydd wedi ymddeol ond sydd eto i fynd yn ôl i mewn i gyflogaeth, bydd y RSS yn manylu sut y byddai rheolau lleihau yn gymwys o dan y ddau gynllun pe byddai'r aelod yn mynd yn ôl i mewn i gyflogaeth. Bydd aelodau felly'n gallu gwneud penderfyniad gwybodus am leihau ac effaith mynd yn ôl i mewn i gyflogaeth sy'n bensiynadwy yn y TPS yn y dyfodol.

## Gwasanaeth Gormodol Athrawon

300. Lle mae gan aelodau gyflogaeth addysgu ychwanegol i gyflogaeth addysgu llawn amser, nid yw'r gyflogaeth ychwanegol honno yn bensiynadwy yng nghynllun gwaddol y TPS. Cyfeirir at y gwasanaeth amhensiynadwy hwn fel Gwasanaeth Gormodol Athrawon.

301. Gall Gwasanaeth Gormodol Athrawon am wasanaeth yn ystod y cyfnod adfer fod yn bensiynadwy yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

os oedd y cyflogwr hefyd yn gyflogwr wedi'i dderbyn yn y LGPS. Os nad oedd y cyflogwr yn gyflogwr wedi'i dderbyn yn y LGPS, nid yw'r Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn bensiynadwy yng nghynllun gwaddol y TPS na'r LGPS.

302. Bydd rolio'r gwasanaeth adferadwy yn ôl o'r cynllun diwygiedig i'r cynllun gwaddol ar 1 Hydref 2023 yn effeithio ar driniaeth y gwasanaeth hwnnw. Mae Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn bensiynadwy yng nghynllun diwygiedig y TPS, felly nid yw'r broblem yn bodoli ar gyfer cyflogaeth o 1 Ebrill 2022. Mae'r paragraffau canlynol yn esbonio sut yr ymdrinnir â'r mater.

303. Ni fydd newidiadau ar unwaith i fuddion mewn taliad i aelodau wedi ymddeol na buddiolwyr aelodau sydd wedi marw ar 1 Hydref 2023 pan ddaw adran 2(1) y Ddeddf i rym. Bydd unrhyw newid ond yn dod i rym cyn gynted â bod aelod (neu wneuthurwr penderfyniad cymwys) wedi cyfathrebu ei benderfyniad IC i'r cynllun.

304. Lle roedd gan aelod gwarchodedig Wasanaeth Gormodol Athrawon yn ystod y cyfnod adfer bydd y gwasanaeth hwnnw naill ai wedi bod yn bensiynadwy yn y LGPS (ac mae felly'n ddarostyngedig i reolau'r cynllun hwnnw) neu nid yw'n bensiynadwy yn naill ai'r LGPS na'r TPS ac ni fydd cyfraniadau aelod wedi cael eu talu. Nid yw cymryd camau ychwanegol yn ofynnol mewn perthynas â Gwasanaeth Gormodol Athrawon i aelodau gwarchodedig.

305. Lle roedd gan aelod heb warchodaeth neu warchodaeth wedi'i lleihau Wasanaeth Gormodol Athrawon yn ystod y cyfnod adfer bydd ei opsiwn IC yn dibynnu ar a oedd y gwasanaeth hwnnw yn bensiynadwy yn y LGPS.

306. Os gwnaeth yr aelodau hyn benderfyniad IC i ddewis buddion cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod adfer, bydd eu Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn cael ei gynnwys yn eu cyfrifiadau buddion cynllun diwygiedig.

307. Os yw'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniad IC i gymryd buddion cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod adfer, bydd eu Gwasanaeth Gormodol Athrawon yn cael ei drin fel a ganlyn:

(i) pe byddai'r Gwasanaeth Gormodol Athrawon wedi bod yn bensiynadwy yn y LGPS ar y pryd (oherwydd bod y cyflogwr yn gyflogwr LGPS) yna bydd y gwasanaeth hwnnw'n cael ei symud i'r LGPS a bydd yn cael ei drin yn unol â rheolau'r cynllun hwnnw. Bydd gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu i'r aelod gan y LGPS ynghylch y gwasanaeth hwnnw.

(ii) pe na byddai'r Gwasanaeth Gormodol Athrawon wedi bod yn bensiynadwy yn y LGPS ar y pryd (oherwydd nad oedd y cyflogwr yn gyflogwr LGPS) bydd y cyfraniadau ar gyfer y gwasanaeth hwnnw'n cael ei ad-dalu trwy iawndal. Bydd RSS yr aelod yn manylu ar unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r aelod.

308. Mae'r Adran yn cydnabod bod hwn yn fater cymhleth ac mae'n gweithio gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (sy'n gyfrifol am y rheolau LGPS), i sicrhau bod cyfathrebiadau a phrosesau eglur yn cael eu rhoi mewn grym i aelodau a chyflogwyr a effeithir.

309. Gall fod newidiadau canlyniadol eraill i reoliadau TPS mewn perthynas â Gwasanaeth Gormodol Athrawon i gyflawni'r polisi a fwriedir fel y'i disgrifir yn llawn, ac os oes angen bydd yr Adran yn mynd i'r afael â hyn yn eu hymateb i'r ymgynghoriad hwn.

# Materion eraill sy'n effeithio ar aelodau Dewis Gohiriedig a Dewis Uniongyrchol

## Penderfyniadau Dibynnol

310. Yn unol â gweithredu ail gam yr adferiad o 1 Hydref 2023, bydd proses penderfyniad dibynnol yn cael ei gyflwyno i ystyried unrhyw hawliadau posibl gan aelodau a all ddangos y byddent wedi gwneud dewisiadau amgen neu wedi cymryd camau eraill pe na byddai'r gwahaniaeth a gafodd ei adnabod wedi digwydd. Bydd hyn yn sicrhau bod ymagwedd deg a chyson yn cael ei chymhwyso.

311. Bydd gwefan y TPS yn cael ei diweddaru i amlinellu'r broses ar gyfer gwneud hawliad penderfyniad dibynnol a bydd yn cynnwys y ffurflen gais berthnasol i'w chwblhau. Bydd hefyd yn cynnwys manylion y broses apêl os oes angen.

## Treth

312. I'r rhan fwyaf o aelodau ni fydd addasiad treth yn ofynnol, fodd bynnag, gall lleiafrif o aelodau weld newidiadau i'w sefyllfa dreth unigol. Mae rhai elfennau o bolisi trethu yn parhau i gael eu datblygu a bydd cyfarwyddyd yn cael ei ddarparu gan CThEF a Thrysorlys EF yn fuan. Bydd dolenni i'r cyfarwyddyd hwn yn cael ei rannu'n fuan ag aelodau trwy'r wefan Pensiynau Athrawon ac mewn cyfathrebiadau perthnasol.

## Cyflogwyr

313. Bydd yr Adran yn dosbarthu cyfathrebiadau penodol i gyflogwyr mewn perthynas ag unrhyw gamau gweithredu y gall fod angen i gyflogwyr eu cymryd mewn perthynas â'r adferiad. Bydd adran Cyflogwr gwefan y TPS yn cael ei diweddaru a bydd gweinyddwr y cynllun yn parhau i ddarparu gwybodaeth trwy fwletinau rheolaidd i gyflogwyr.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

314. Mae gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn cael eu hamlinellu yn adran149 Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r PSED yn gofyn i awdurdod cyhoeddus ystyried yn briodol yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini sydd ddim; a
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini sydd ddim.

315. Mae'r nodau hyn hefyd yn cael eu hadnabod fel tri aelod y PSED. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr angen yn briodol i ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig a chymryd camau i ateb anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.

316. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn cwmpasu naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailddynodi rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (ethnigrwydd), crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

317. Mae'r adran wedi cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) mewn perthynas â'r rheoliadau draft sy'n cael ei gwblhau ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Cyfeiriwch at yr EIA am fanylion asesiad yr Adran ynglŷn â'r ymagwedd arfaethedig i'r rhan hon o'r adferiad.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

| **Gofynnir i ymatebwyr ystyried;** |
|---|
| C.1 Ydych chi'n cytuno â'r ymagwedd bolisi sy'n cael ei chynnig yn y ddogfen ymgynghori i'r TPS fynd i'r afael â'r gwahaniaethu a gafodd ei adnabod â threfniadau gwarchodaeth drawsnewidiol? |
| C.2 Ydi'r rheoliadau drafft yn cyflawni nodau'r polisi fel y'u disgrifir yn y ddogfen ymgynghori? |
| C.3 Oes unrhyw reoliadau cynllun eraill yn ofynnol i gyflawni'r nodau polisi a ddatganwyd? |
| C.4 Oes unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r rheoliadau drafft? |
| C.5 Oes ystyriaethau a thystiolaeth ychwanegol y dylai'r adran eu hystyried wrth asesu materion cydraddoldebau sy'n codi o ganlyniad i'r rheoliadau a gynigir? |
| C.6 Yn gyffredinol, ydych chi'n cytuno â'r rheoliadau drafft a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori? |

## Camau Nesaf

318. Ar ôl i'r ymgynghoriad gau ar 4 Mehefin 2023, bydd ymatebion yn cael eu hystyried yn llawn cyn i reoliadau TPS gael eu cwblhau. Mae angen i reoliadau fod mewn grym ar 1 Hydref 2023. Bydd yr Adran yn cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad cyn y dyddiad hwn.

319. Oherwydd nifer yr aelodau a effeithir, bydd yn cymryd amser i weinyddwr y cynllun wneud cyfrifiadau perthnasol sydd eu hangen ar gyfer y datganiadau Gwasanaeth Adferadwy a phenderfyniadau eraill y bydd angen i aelodau eu gwneud ynghylch hyblygrwyddau ac ati. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar wefan y TPS yn amlinellu pryd y gall aelodau ddisgwyl cael cysylltiad ar ôl 1 Hydref 2023. Ni fydd angen i aelodau gysylltu â'r cynllun er mwyn derbyn manylion perthnasol ynglŷn â'u gwasanaeth adferadwy nac i wneud eu dewis o fuddion ar gyfer y cyfnod adfer.

320. Gellir canfod rhagor o wybodaeth ar newidiadau cynllun ar adran Gwarchodaeth Drosglwyddiadol y wefan Pensiynau Athrawon. Mae'r adran hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd â gwybodaeth berthnasol.

Department for Education

© Hawlfraint y goron 2023

Mae'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos) wedi'i thrwyddedu/wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I weld y drwydded hon:
ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3
e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
ysgrifennwch at Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain, TW9 4DU

Am y cyhoeddiad hwn:
ymholiadau www.education.gov.uk/contactus
lawrlwytho www.gov.uk/government/consultations

Dilynwch ni ar Twitter:
@educationgovuk

Hoffwch ni ar Facebook:
facebook.com/educationgovuk